



**2018/19**

Adroddiad ar Gyflawniad  
Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## Cynnwys

**04.** Adran 1:  
Cyflawni ein Blaenoriaethau 2016/17

**06.** Adran 2:  
Cyflawni ar gyfer y dyfodol

**07.** Adran 3:  
Ydyn ni'n cael hwyl arni?

**09.** Adran 4: **ECONOMI**  
Adeiladu economi gref

**14.** Adran 5: **POBL**  
Hyrwyddo annibyniaeth a  
bywydau cadarnhaol i bawb

**19.** Adran 6: **LLEOEDD**  
Creu cymdogaethau mae pobl yn falch  
o gael byw a gweithio ynddyn nhw

**24.** Adran 7: **CYLLIDEB**  
Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb

**26.** Adran 8: **EIN GWAITH**

- Themâu pwysig sy'n sail i'n gwaith
- Gweithredu nawr ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cydraddoldeb
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth
- Sut rydyn ni'n gwrandao

**Mae'r ddogfen yma ar gael mewn sawl iaith a diwyg ar gais.**

## Cynllunio'r Ffordd Ymlaen

**Dyma Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer 2018/19 a'n cyflawniadau yn 2017/18.**

Rydyn ni'n croesawu'ch barn chi ar yr adroddiad yma, ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a'r hyn a gyflawnon ni y llynedd. Bydden ni hefyd yn hoffi gwybod sut mae'n gwaith ni i wella gwasanaethau wedi effeithio arnoch chi, eich teulu a'ch cymuned. **Cysylltu â ni:**



• **Gwefan RhCT:**  
[www.rctcbc.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.rctcbc.gov.uk/dweudeichdweud) *neu* [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)



• **Twitter:**  
[@CyngorRhCT](https://twitter.com/CyngorRhCT) *neu* [www.twitter.com/CyngorRhCT](http://www.twitter.com/CyngorRhCT)



• **Facebook:**  
[www.facebook.com/RCTCouncil](http://www.facebook.com/RCTCouncil)



• **E-bost: *Carfan Cyflawni***  
[cynlluncyflawni@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:cynlluncyflawni@rhondda-cynon-taf.gov.uk)



• **Ffôn:**  
01443 680723



• **Ysgrifennu aton ni:**  
Carfan Cyflawni,  
Tŷ Bronwydd, Y Porth CF39 9DL



• **Anfon e-bost at y Garfan Ymgynghori:**  
[ymgynggori@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:ymgynggori@rhondda-cynon-taf.gov.uk)

• **Dod yn rhan o Banel y Dinasyddion:**  
[www.rctcbc.gov.uk/paneldinasyddion](http://www.rctcbc.gov.uk/paneldinasyddion)

• **Hwb Ymgysylltu Cwm Taf:**  
[www.eincwmtaf.cymru](http://www.eincwmtaf.cymru)

• **Ein helpu ni i wella drwy gynnig sylwadau, canmoliaeth a chwynion**  
[www.rctcbc.gov.uk/adborth](http://www.rctcbc.gov.uk/adborth)

• **Manylion cyswllt eich Cyngorydd lleol:**  
[www.rctcbc.gov.uk/cynghorwyr](http://www.rctcbc.gov.uk/cynghorwyr)

• **Cofrestru i dderbyn eGylchlythyr y Cyngor am ddim:**  
[www.rctcbc.gov.uk/cylchlythyr](http://www.rctcbc.gov.uk/cylchlythyr)

• **Os ydych chi'n awyddus i gymryd yr awenau gan y Cyngor am redeg cyfleuster neu wasanaeth:**  
[www.rctcbc.gov.uk/RhCTGydanGilydd](http://www.rctcbc.gov.uk/RhCTGydanGilydd)

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac, hefyd, amcanion llesiant y Cyngor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I bob pwrpas, mae modd trin Amcanion Llesiant ac Amcanion Gwella yr un fath. Felly, drwy integreiddio'r prosesau ar gyfer pennu'r amcanion allweddol hyn, ac adrodd arny nhw, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y ddaau faes deddfwriaeth



## Neges gan Arweinydd y Cyngor - y Cynghorydd Andrew Morgan

Croeso i Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor 2018. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys ein cyflawniadau y llynedd a'n cynlluniau ar gyfer cyflawni'n blaenoriaethau yn 2018/19. Mae'n cynnwys llawer iawn o wybodaeth a byddwch chi'n gallu gweld dros och chi'ch hun ydy'r Cyngor yn cael hwyl arni a beth yw barn yr archwilwyr annibynnol. Mae'n cynnwys sawl enghraifft o sut mae'r Cyngor yn gweithio i wella llesiant Economaidd, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf.

Gobeithio y cewch chi'r adroddiad yma'n ddefnyddiol a'i fod yn eich helpu chi i ddeall a herio'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Mae hefyd yn cynnwys cysylltiadau i adroddiadau a data mwy manwl ar gyfer y bobl hynny a fyddai'n hoffi cael rhagor o wybodaeth. Yn fwy na dim, rydw i'n gobeithio y byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth i ddweud wrthon ni am y pethau da rydyn ni'n eu gwneud yn ogystal â'r pethau y gallwn ni eu gwella. Mae'r data ynghylch cyflawniad cyffredinol y Cyngor yn dweud wrthon ni ein bod ni'n dal i wella, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a bod rhai o'n gwasanaethau ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- % y plant Cyfnod Allweddol 2 sy'n ennill y lefelau disgwylidig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Glendid y priffyrdd hynny sy'n cael eu harchwilio.
- Lleihau cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei gladdu.
- Cyflwr ein ffyrdd (C).

Yn ogystal â dathlu'r newyddion cadarnhaol, rydyn ni hefyd yn effro i'r faith bod angen i ni wella mewn ambell faes. Felly am y rheswm hynny, er enghraifft, rydyn ni'n parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn meysydd fel priffyrdd, ac yn enwedig yn y ffyrdd A a B. Yn 2017/18, roedden ni wedi gwella cyflwr a diogelwch y seilwaith ffyrdd a phriffyrdd fel rhan o'n rhaglen 'BuddsoddiadRhCT', e.e. Ffordd Mynydd y Rhigos, pont Ffordd Llantrisant, llwybrau troed newydd, atgyweirio'r ffensys diogelwch a rhoi mesurau diogelwch newydd ar waith. Un o'n blaenoriaethau allweddol yw parhau i gynnal a gwella'n priffyrdd a'n strwythurau. Blaenoriaeth arall yw parhau i weithio ar ganran yr heolydd sydd angen sylw brys (7%). I gyflawni hyn rydyn ni'n buddsoddi £23.6 miliwn dros y flwyddyn sydd i ddod. Daw hyn â chyfanswm ein buddsoddiad i £115 miliwn dros wyth mlynedd. Fel rhan o'n rhaglen, roedden ni wedi creu cynllun i atgyweirio a gwella Heol Mynydd y Maerdy. Ein contractwr, Alun Griffiths, a gyflawnodd y gwaith y llynedd. Mae'r cynllun bellach wedi derbyn Gwobr **Sefydliad y Peirianwyr Sifil** ar gyfer cyflawniad peirianeg rhagorol.

Buon ni'n parhau i ddarparu'r prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys adeiladu 3 ysgol 'pob oed' newydd; Ysgol Gymuned y Porth, Ysgol Gymuned Tonyrefail, ac Ysgol Nant-gwyn (Tonypanydd) a fydd yn agor yn Hydref 2018. Llwyddon ni hefyd i sicrhau cyllid i wella cyflwr rhagor o ysgolion a darparu rhagor o leoliadau cyfrwng Cymraeg. Fel elfen gysylltiedig i brosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif, roedden ni wedi buddsoddi mewn caeau chwaraeon 3G sy'n darparu cyfleusterau er budd y disgyblion a'r gymuned ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys Ysgol Gyfun Garth Olwg, Ysgol Gymuned Pentre'r Eglwys ac Ysgol Gymuned Tonyrefail.

Drwy newid a chryfhau sut rydyn ni'n cynllunio a gweithio â chyrrff cyhoeddus eraill, rydyn ni wedi gwella gwasanaethau sydd ddim wedi cyflawni'n dda yn y gorffennol. Mae ein gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn enghraifft o hyn y ystod ei flwyddyn lawn gyntaf o weithredu. O ganlyniad i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chyngor Merthyr Tudful, roedd pobl wedi gadael yr ysbyty a dychwelyd i'w cartrefi neu gartrefi gofal yn gynt ac yn fwy diogel pan oedden nhw'n ddigon iach i wneud hynny.

Wrth i ni bennu'r gyllideb ar gyfer 2018/19, roedd angen i ni wneud arbedion o £9.8 miliwn. Roedd modd i ni wneud hyn trwy brynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon, newid sut mae'r Cyngor yn cael ei strwythuro, buddsoddi mewn technoleg a gwella sut rydyn ni'n gweithio ag eraill. Hefyd, roedd modd i ni gadw cynnydd yn y Dreth Gyngor i 3.3%, sef y cynnydd isaf yng Nghymru.

Rydyn ni'n gwybod y bydd yn anoddach i wneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y galw am rai gwasanaethau yn cynyddu, e.e. gofal cymdeithasol. Felly, dyma pam rydyn ni'n parhau â'n dull o archwilio pob rhan o gyllideb y Cyngor ochr yn ochr â rhaglen o fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau allweddol.

Rydyn ni'n buddsoddi £180 miliwn fel rhan o'n rhaglen gyfalaf ar gyfer 2018/19 i 2020/21 i wella'r isadeiledd a'r cyfleusterau sydd ar gael i drigolion ymhellach. Mae hyn yn cynnwys prosiectau adfywio, adeiladu gwell ysgolion, gwella cyflwr ffyrdd ac asedau cymunedol fel parciau a meysydd chwarae yn ogystal â buddsoddi pellach i Ganolfannau Hamdden.

Mae'r adroddiad yma'n cynnwys llawer o enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio gydag eraill i sicrhau'r budd mwyaf ar gyfer ein trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynllunio ni fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn para dros ddeng mlynedd, gyda'r Cyngor yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni cynllun cyffrous ac uchelgeisiol i wella economi De Ddwyrain Cymru. Y nod yw creu 25,000 o swyddi a denu buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn i roi hwb i ffyniant economaidd y rhanbarth. Mewn meysydd sy'n fwy lleol, rydyn ni'n cefnogi'r prosiectau i ailddatblygu canol ein trefi gan gynnwys bod yn flaen i'r prosiect Dyffryn Taf ym Mhontypridd, a chynllun sylweddol i wella canol tref Tonypanydd.

Byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar (yn ogystal ag atal) fel rhan o'n gwasanaethau er mwyn gwella bywydau ein trigolion. Nod ein Rhaglen Teuluoedd Cydnerth a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yw lleihau'r nifer y plant y mae'r Cyngor yn ymyrryd ar eu bywydau. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy weithio gyda theuluoedd, fel eu bod nhw'n derbyn y cymorth sydd angen arnyh nhw i'w helpu i 'ymadfer' ar ôl cyfnodau anodd.

I orffen, fyddai hi ddim yn bosibl i ni wneud unrhyw ran o'r gwaith yma heb ymroddiad parhaus y staff, cynghorwyr a phartneriaid. Hoffwn i gofnodi fy niolchiadau personol i bawb sy'n gweithio'n galed i wneud Rhondda Cynon Taf yn un o'r Cyngorau mwyaf llwyddiannus yng Nghymru fel bod ein trigolion yn manteisio ar y gwasanaethau gorau posibl.

Rydw i'n gobeithio bydd yr Adroddiad ar Gyflawniad yma yn eich helpu chi i ddeall sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ddelio â'r heriau a'r cyfleoedd mae'n eu hwynebu. Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn chi ar ein cynnydd a'n cynlluniau, ac ar yr hyn sy'n bwysig i chi. Rhowch eich syniadau ynglŷn â'r hyn y gallwn ni ei wneud i wella effaith gadarnhaol gwaith y Cyngor ymhellach.

*A. Morgan*

**Y Cynghorydd Andrew Morgan**  
Arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf

## Parhau i ddarparu'n blaenoriaethau yn 2017/18.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2016–2020 (Y Ffordd Ymlaen) yn parhau i gadw'n trigolion wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

Cafodd y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol eu ffurfio a'u llywio gan drigolion, staff a phartneriaid a roddodd wybod i ni am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn fwy pwysig na hynny, mae'n parhau i fod yn gwmpawd ar gyfer popeth y mae angen i ni ei wneud yn y Cyngor, a chydag eraill rhwng nawr a 2020.

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sef:

**Bwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb,**  
ac sy'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:



### Economi

*Adeiladu  
economi gref*



### Pobl

*Hybu annibyniaeth  
a bywydau cadarnhaol  
i bawb*



### Lleoedd

*Creu cymdogaethau mae  
pobl yn falch o gael byw a  
gweithio ynddyn nhw*

**Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r egwyddorion allweddol rydyn ni'n eu dilyn i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, sef:**

- ▶ **Darparu gwasanaethau hanfodol yn dda;**
- ▶ **Helpu pobl a chymunedau i'w helpu eu hunain**
- ▶ **adeiladu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy; a**
- ▶ **byw o fewn ein modd.**

#### Sylwadau'r Rheoleiddiwr...

Yn ôl yr adroddiad diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru, **ym mis Mehefin 2017**, "mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus" ac mae:

- trefniadau ar waith sy'n debygol o helpu i wneud gwelliannau parhaus;
- wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynglŷn â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau;
- trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Rydyn ni'n disgwyl adroddiad nesaf Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Awst 2018.

Mae'r egwyddorion yma a'r Weledigaeth hirdymor yn golygu bod angen i ni: gynnwys barn y bobl a'r gymuned pan fyddwn ni'n llywio gwasanaethau; ystyried effaith yr hyn rydyn ni'n ei wneud nawr ar ddyfodol y bobl a'r cymunedau; cynllunio'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn ofalus er mwyn i ni allu gweithio gydag eraill pan fydd angen gwneud hynny; gweithredu gwasanaethau fydd yn helpu atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

Roedd gwybodaeth am yr hyn roedden ni'n bwriadu ei wneud i gyflawni'r blaenoriaethau yma yn 2017–18 wedi'i nodi yn ein **Hadroddiad Cyflawniad Corfforaethol ar gyfer 2017–18**, ac rydyn ni wedi monitro ein cynnydd yn barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Dydych chi'r Cynllun Corfforaethol ddim yn dangos yr holl wasanaethau rydyn ni'n eu darparu neu'u trefnu ar gyfer ein trigolion, ein cymunedau a'n busnesau. Mae rhagor o wybodaeth ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud ar **wefan y Cyngor**.

Ers gweithredu'r Cynllun yn 2016, rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran mynd i'r afael â'n tair blaenoriaeth. Bob 3 mis, mae'n gwaith wedi bod yn cael ei adolygu a'i wirio gan Gyngorwyr. Ar yr un pryd, mae adroddiadau wedi cael eu rhoi ar wefan y Cyngor fel bod modd i bawb weld y cynnydd drosto'i hunan. Rydyn ni wedi dod i ddiwedd y flwyddyn adrodd, felly, mae'r adroddiad yma'n cynnwys asesiad o'n cyflawniad yn y tair blaenoriaeth yma yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'r gwahaniaeth mae ein gwaith wedi ei wneud i'r bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio yn Rhondda Cynon Taf, ac yn ymweld â hi.

Bydd tair blaenoriaeth y Cyngor ar waith tan 2020. Serch hynny, mae dull cyflawni'r blaenoriaethau hyn, ein targedau, a'r camau nesaf, wedi cael eu hadnewyddu a'u cryfhau yn rhan o'r cynlluniau rydyn ni'n eu rhoi ar waith ar gyfer 2018/19



Er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau'n well ac ymateb i effaith caledi a phwysau ariannol cynyddol, rydyn ni hefyd wedi sefydlu pum ffrwd waith i wella gwasanaethau hanfodol. Sef:

### **DIGIDEIDDIO...**

fel bod modd i gwsmeriaid fanteisio ar ragor o'n gwasanaethau drwy fynd ar-lein, yn ogystal â chynyddu cyfleoedd i bobl a chymunedau ddefnyddio technoleg.

### **MASNACHEIDDIO...**

fel bod y Cyngor yn manteisio ar ragor o gyfleoedd i weithredu fel busnes ac yn ennill arian yn hytrach na thorri cyllideb.

### **ATAL AC YMYRRAETH GYNNAR...**

fel ein bod ni'n gwario rhagor o arian ar atal problemau a llai ar geisio datrys problemau wedi iddyn nhw godi.

### **ANNIBYNNIAETH...**

fel bod modd i'n trigolion sy'n agored i niwed aros mor iach â phosibl am y cyfnod hiraf posibl.

### **TREFNU'N EFFEITHLON AC EFFEITHIOL...**

fel ein bod ni'n gallu herio popeth rydyn ni'n ei wneud er mwyn gweld a oes modd i ni ei wneud yn well.

Yn 2017 roedden ni wedi parhau i weithio i gadw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** wrth wraidd gwaith a blaenoriaethau'r Cyngor, gyda thair blaenoriaeth yn cael eu mabwysiadu fel ein Hamcanion Llesiant ym mis **Mawrth 2017**. Rydyn ni hefyd wedi cryfhau'r elfennau hynny yn ein Cynllun Corfforaethol sydd wedi newid neu symud ymlaen ers ei gyflwyno yn 2016.

Mae'r Ddeddf yn golygu bod angen i'r Cyngor ddangos sut mae ei waith yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac yn cyfrannu at y saith nod Lles cenedlaethol, yn ogystal â dangos ei fod yn gwella'n barhaus.

1. **Cymru lewyrchus**
2. **Cymru gydnherth**
3. **Cymru iachach**
4. **Cymru sy'n fwy cyfartal**
5. **Cymru o gymunedau cydlynus**
6. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
7. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae'r tair blaenoriaeth sydd gyda ni ar hyn o bryd wedi darparu man gychwyn glir i'n helpu ni i ddangos sut mae ein gwaith yn cyfrannu at y saith amcan lles cenedlaethol; ond mae angen i ni wneud rhagor.

Mae'r Ddeddf hefyd yn pwysleisio pa mor 'gynaliadwy' mae angen i ni fod drwy ofyn i ni weithio'n wahanol, lle dydyn ni ddim yn gwneud hynny yn barod. Mae'r egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu disgrifio yn y Ddeddf fel y pum ffordd o weithio, sef:

1. **Cydbwysio anghenion y tymor byr gyda'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.**
2. **Gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni ein blaenoriaethau.**
3. **Cynnwys unigolion eraill sydd â buddiant a cheisio eu barn.**
4. **Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.**
5. **Ystyried sut mae'r nodau llesiant yn effeithio ar y cyrff eraill hynny.**

Mae'r pum dull gweithio yma yn gorfodi'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cyngor, i feddwl mwy am gynlluniau hirdymor; i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a chymdeithasau gilydd; i geisio atal problemau; ac i fabwysiadu dull mwy cydgyssylltiedig wrth gyflawni'r gwaith rydyn ni'n ei wneud.

Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni popeth mae'r Ddeddf yn gofyn amdano. Yn ein barn ni, y modd gorau i ni wneud hyn yw trwy sicrhau ei fod yn rhan o'n gwaith beunyddiol ac nid yn fater ar wahân.

Mae yna eisoes enghreifftiau da yn weithredol ledled y Cyngor lle rydyn ni'n gallu dangos ein bod ni'n gweithio'n gynaliadwy, gan gynnwys **gweithio gyda phartneriaid eraill**, e.e.

- gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf drwy'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref lle rydyn ni'n helpu pobl i adael yr ysbty i fynd adref yn gynt ac mewn modd diogel, ac yn lleihau'r nifer o driniaethau sy'n cael eu canslo, a
- mynd i'r afael â phroblemau hirdymor drwy ddulliau newydd drwy'r rhaglen Teuluoedd Cydnherth. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau yma yn yr adran **POBL**.

Enghraifft arall o'n gwaith cynaliadwy sy'n fwy hir sefydlog yw ein gwaith gyda'r Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a fyddai'n cynnwys dod â swyddi a chysylltiadau trafnidiaeth gwell i'r rhanbarth. Cewch chi weld sawl enghraifft arall drwy'r adroddiad yma sy'n dangos ein bod ni'n cyfrannu at y saith amcan llesiant cenedlaethol. Serch hynny mae angen arnon ni i barhau i wella ac adeiladu ar y seiliau cadarnhaol yma.

## Cyflawni ar gyfer y dyfodol

Ers sawl blwyddyn, bu rhaid i'r Cyngorwyr wneud y dewisiadau a'r penderfyniadau anodd angenrheidiol fel y gall y Cyngor flaenoriaethu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer y rheini sydd fwyaf agored i niwed, wrth barhau i sicrhau'r arbedion sydd eu hangen i fantoli'r gyllideb.

Rydyn ni wedi lleihau'r strwythurau rheolaeth a swyddogaethau'r "swyddfa gefn", sefydlu partneriaid â chynghorau eraill a chyrrff cyhoeddus, ac wedi gwneud defnydd gwell o adeiladau'r Cyngor sydd wedi ein galluogi ni i leihau'r nifer o adeiladau a gwneud y defnydd mwyaf o'r lle yn y swyddfeydd.

Rydyn ni wedi cyflawni'r newidiadau yma oherwydd rydyn ni'n cynnal **adolygiadau rheolaidd o bob gwasanaeth** ledled y Cyngor ac yn herio popeth rydyn ni'n ei wneud er mwyn gweld a oes modd ei wneud yn wahanol neu'n well. Mae'r adolygiadau yma'n golygu ein bod ni'n gwybod beth yw'n cryfderau a pha feysydd sydd angen eu gwella. Rydyn ni hefyd yn gallu ymateb yn well i newid a pharhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd gyda llai o adnoddau, gan gynnwys llai o reolwyr a staff. Rydyn ni hefyd yn siarad mwy â'n trigolion, o bob oed, i gael gwybod am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw ac i geisio eu syniadau a'u hawgrymiadau ar gyfer gwella. Rydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau cyfyngedig drwy weithio gydag eraill lle mae hynny'n gwneud synnwyr. Drwy edrych ar (a herio) yr hyn rydyn ni'n ei wybod am ein gwasanaethau ac anghenion ein trigolion a'n cymunedau, heddiw ac yn y dyfodol, bydd modd i ni ddeall yn well yr hyn rydyn ni angen ei wella a sut mae gwneud hynny, er mwyn canolbwyntio ar wella'r hyn sydd fwyaf pwysig i sicrhau y bydd modd diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, fel partner allweddol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf a'r Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf, rydyn ni wedi cyfrannu at ddatblygiad y ddau gynllun allweddol ar gyfer ardaloedd Cwm Taf yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Datblygodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Gynllun Llesiant sy'n nodi pedwar Amcan Llesiant.

1. **Cymunedau sy'n Ffynnu**
2. **Pobl Iachus**
3. **Economi Gref**
4. **Mynd i'r afael ag Unigrwydd ac Unigedd**

Datblygodd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf **Gynllun Rhanbarthol** sy'n nodi sut bydd partneriaid yn cydweithio'n well o ran

- **plant a phobl ifainc**
- **pobl hŷn**
- **anableddau corfforol/iechyd**
- **anabledd dysgu/awtistiaeth**
- **iechyd meddwl**
- **nam ar y synhwyr**
- **cynhalwyr sydd angen cymorth**
- **trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r canlynol:






- **pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.**
- **pobl sydd ag anableddau dysgu.**
- **cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc.**
- **Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd**
- **plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd a salwch.**

Fel Cyngor, a thrwy weithio mewn partneriaeth ag eraill, rydyn ni'n ymdrechu i wella popeth rydyn ni'n ei wneud er mwyn i ni ddarparu gwasanaethau gwell sy'n fwy effeithlon ac effeithiol ar gyfer ein trigolion a'n cymunedau.

## Ein cyflawniad:





Mae yna 16 dangosydd cenedlaethol lle mae modd i ni gymharu cyflawniad. Rydyn ni wedi defnyddio'r cymariaethau Cymru gyfan diweddaraf ar gyfer 2016/17 er mwyn cymharu ein data ar gyfer 2017/18.

### Dangosodd hyn...







-  ein bod ni yn y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer 4 allan o'r 26 dangosydd;
-  ein bod ni wedi gwella mewn 10 o'r dangosyddion, gyda 5 o'r rheini yn well na chyfartaledd Cymru;
-  bod 3 o'r dangosyddion yn y chwarter isaf yng Nghymru er bod cyflawniad wedi gwella;
-  bod cyflawniad wedi gostwng mewn 5 o'r dangosyddion ers llynedd;
-  bod cyflawniad 1 o'r dangosyddion yn gyson â llynedd ac wedi aros yn y chwarter uchaf yng Nghymru.

Mae crynodeb llawn o'n cyflawniad o'i gymharu â gweddill Cymru yn 2017/18 yn ein **Cymhariaeth Dangosyddion Cyflawniad Statudol**



### Roedden ni ymhlith y chwarter uchaf yng Nghymru ar gyfer...

-  % y plant cyfnod allweddol 2 sy'n ennill y lefelau disgwylidig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
-  glendid y priffyrdd hynny sy'n cael eu harchwilio.
-  lleihau cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei anfon i safleoedd tirlenwi.
-  cyflwr ein ffyrdd (C).


### Roedden ni'n y chwarter isaf yng Nghymru ar gyfer...

-  nifer yr ymweliadau i Lyfrgelloedd Cyhoeddus
-  presenoldeb disgyblion yn yr ysgol gynradd.
-  presenoldeb disgyblion yn yr ysgol uwchradd.
-  cyfran y gwastraff rydyn ni'n ei ailgylchu.
-  cyflwr y prif ffyrdd (A) a'r ffyrdd cyffredin (B).
-  sefydliadau bwyd yn cwrdd â'r safonau hylendid bwyd.

### Cymharu ein cyflawniad yn erbyn ein targedau ar gyfer 2017/18...

-  Roedd 10 o'r dangosyddion wedi cwrdd neu ragori ar ein targedau, er roedd cyflawniad ar gyfer 5 dangosydd yn is na chyfartaledd Cymru.
-  Doedd 6 dangosydd ddim wedi cyrraedd y targed, roedd 5 ohonyn nhw yn is na chyfartaledd Cymru.

Pan fydd gwybodaeth Cymru gyfan ar gyfer 2017/18 ar gael ym mis Medi, byddwn ni'n rhoi cymhariaeth fwy diweddar i'r Cynghorwyr yn rhan o'n hadroddiadau cyflawniad rheolaidd, ac yn rhoi'r **wybodaeth ar ein gwefan**. Mae modd i chi weld rhagor o fanylion ynglŷn â sut mae Cynghorau ar draws Cymru yn cymharu â'i gilydd ar y dudalen **Fy Nghyngor Lleol**.



Nid unig ddull mesur y gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yw dangosyddion cyflawniad, na chwaith yn adrodd y stori gyfan. Serch hynny, maen nhw'n gallu bod yn ddefnyddiol. Efallai bydd mwy o gwestiynau nag atebion yn codi wrth gymharu cyflawniad â chynghorau eraill. Mae hyn yn gadarnhaol oherwydd ei fod yn gallu ein helpu ni i ddeall yr hyn rydyn ni'n ei wneud, i ddysgu o arfer gwell, yn ogystal â rhoi arwydd i ni o safon ein cyflawniad. Os gallwn ni weld nad yw ein cyflawniad yn gwella dros amser, ac yn aros yn is na chyfartaledd Cymru heb fod yna rheswm dilys, fe allwn ni wedyn ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni angen ei wella.

Bydd llai o fesurau strategol yn eu lle ar sail genedlaethol yn 2019. Mae hyn yn golygu y bydd llai o fesurau i ni gymharu â nhw. Serch hynny, rydyn ni'n awyddus i edrych ar ddulliau eraill o gymharu ein cyflawniad.


Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hadroddiad cyntaf sy'n nodi'r cynnydd sy'n digwydd ledled Cymru i gwrdd â'r saith nod llesiant cenedlaethol. Er bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad ddim yn sôn am Rhondda Cynon Taf, mae'r hyn rydyn ni'n ei wneud ar lefel lleol yn cyfrannu at y saith **nod llesiant cenedlaethol**.

### Negeseuon allweddol yr adroddiad yw:

- “Mae disgwyliad oes wedi bod yn cynyddu, ac mae nifer y bobl sydd â chyflwr iechyd da wedi cynyddu hefyd. Serch hynny, mae anghydraddoldebau yn parhau ar draws grwpiau gwahanol.
- Mae'r niferoedd sy'n smygu ac yn yfed yn disgyn, ond yn gyffredinol mae un mewn pob deg person yn dilyn llai na dau o arferion byw'n iach. Mae gordewdra mewn oedolion wedi codi dros y tymor hir.
- Mae cynnydd wedi bod o ran dechrau iach i fywyd yn y meysydd fel bwydo o'r fron ac iechyd deintyddol, ond mae gordewdra mewn plant yn parhau i fod yn her.
- Mae'n fwy tebygol y bydd pobl yng Nghymru yn gweithio, er bod heriau economaidd hanesyddol yn parhau. Er bod swydd yn lleihau'r tebygolrwydd o fod yn dlawd, mae tlodi "mewn gwaith" yn cynyddu wrth i ragor o bobl weithio. Ystyrir bod dau draean o weithwyr â "swydd eithaf da".
- Fel gweddill y DU, does dim llawer o welliant o ran incwm, ond mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng ac mae cyflawniad addysgol yn cynyddu.
- Mae tlodi incwm cymharol wedi aros yn gyson, ac mae ar ei uchaf ymhlith plant. Serch hynny, mae canran llai wedi nodi eu bod nhw mewn amddifadedd sylweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn fater anghydraddoldeb allweddol ar gyfer rhai canlyniadau fel cyflawniad addysgol a disgwyliad oes.
- Mae materion anghydraddoldeb yn parhau mewn dangosyddion gwahanol ac ar draws grwpiau poblogaeth gwahanol. Er enghraifft, mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddweud dydyn nhw ddim yn teimlo eu bod nhw'n perthyn yn yr ardal leol, a bod menywod yn teimlo'n llai diogel yn eu cymunedau na dynion.
- Mae ymdeimlad pobl o gymuned a pherthyn yn dibynnu ar ystod o ffactorau. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon â lle maen nhw'n byw, er bod un o bob pump o bobl yn teimlo'n unig
- Mae nifer o oedolion yn mynychu a chymryd rhan mewn diwylliant a chwaraeon, ac yn gyffredinol mae'r tueddiadau wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Serch hynny, mae cyfranogiad yn amrywio yn unol ag oedran a chefnidir.
- Mae un ym mhob pum person yn siarad Cymraeg, ac mae'r data'n awgrymu bod yna gynnydd yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg, ond heb eu bod nhw'n rhugl. Mae defnydd yr iaith wedi aros yn gyson.
- Mae ansawdd dŵr ac aer yng Nghymru yn parhau i wella, ac mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi disgyn. Serch hynny, mae llygredd aer yn parhau i fod yn fater iechyd sylweddol.
- Mae maint yr ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu'n cynyddu. Ond mae ein hól troed ecolegol yn awgrymu bod ein hadnoddau naturiol allweddol yn cael eu difetha yn gyflymach nag y gellir eu hailgyflenwi.
- Ar y cyfan, mae amrywiaeth fiolegol yn dirywio, a does dim modd dweud bod gan unrhyw un o'r ecosystemau yng Nghymru yr holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer gwytnwch.”







# ECONOMI:


## Adeiladu economi gref

# ECONOMI

## Adeiladu economi gref

### Gwybodaeth allweddol am Riondda Cynon Taf

- Roedd 5,800 o bobl (5.2%) yn ddi-waith yn ystod y flwyddyn tan fis Rhagfyr 2017 o'i gymharu â 5,900 o bobl (5.3%) yn y flwyddyn flaenorol. Mae diweithdra yn dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru (4.8%). Serch hynny, mae diweithdra yn disgyn yn Rhondda Cynon Taf, tra'i fod yn cynyddu'n gyffredinol yng Nghymru.
- Mae 17,200 o aelwydydd heb waith (21.7%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.3%) a'r Deyrnas Unedig (15.1%).
- Mae 47% o'r ardaloedd yn Rhondda Cynon Taf ymhlith yr hanner mwyaf difreintiedig o ardaloedd yng Nghymru.
- Does dim cymwysterau gan 10.1% o oedolion, a llai na 5 TGAU gradd C gan 18.2% o oedolion.
- Mae'r bwllch yn cau rhwng disgyblion y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 sydd yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r sawl sydd ddim yn gymwys. Parhaodd y bwllch i dyfu yng Nghyfnod Allweddol 3, 21.2% i 21.7%. Mae bwllch Cyfnod Allweddol 4 yn parhau i fod yn eang ar 32.7%, lle'r oedd yn 32.0% gynt.
- Mae 17.8% o blant yn byw mewn tloidi. Serch hynny, pan fydd cost tai yn cael ei thynnu o incwm y cartref, mae'r ffigur yma'n cynyddu i 28%.
- Mae dros 3,556 o anheddau yn y sector preifat wedi bod yn wag am fwy na chwe mis, 738 yn fwy na llynedd.



Yn 2017, dywedon ni y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i adeiladu economi gref.

### Rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at nifer o brosiectau hirdymor. Dros y flwyddyn ddiwethaf...

- rydyn ni wedi parhau i weithio tuag at ddyfodol ffyniannus hirdymor ar gyfer Rhondda Cynon Taf drwy weithio gyda phartneriaid ar y Fargen Ddinesig a Gweithlu'r Cymoedd;
- rydyn ni wedi cefnogi prosiectau parhaol er mwyn adfywio canol ein trefi, gan gynnwys y prosiect Dyffryn Taf a'r YMCA ym Mhontypridd a'r prosiect ailddatblygu'r Boot Hotel yn Aberdâr;
- rydyn ni wedi parhau i ddarparu'r prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys adeiladu 3 ysgol 'pob oed' newydd sy'n agor yn Hydref 2018, a sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer cyllid pellach i wella cyflwr rhagor o ysgolion a darparu rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg;
- rydyn ni wedi gostwng ymhellach y nifer cyffredinol o bobl ifainc 16-18 oed sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth nac hyfforddiant i 1.4%.

### Serch hynny, rydyn ni'n parhau i wynebu problemau sylweddol mewn rhai meysydd, yn benodol...

- gwella'r nifer o ddisgyblion sy'n llwyddo i gael canlyniadau da adeg TGAU a lleihau'r bwllch rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim â'u cyfoedion;
- gostwng y niferoedd o ddisgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol;
- cynyddu'r niferoedd sy'n ymweld â chanol trefi RhCT, a lleihau'r nifer o unedau manwerthu sy'n wag mewn rhai trefi.



Mae modd gweld rhagor o fanylion am ein cynnydd o'i gymharu â'n nodau ar gyfer **2017/18 yn ein Gwerthusiad Cyflawniad.**


Mae hyn yn cynnwys sut mae RhCT yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol, ac yn arbennig Cymru Ffyniannus, Cymru Gyfartal a Chymru o Gymunedau Cydlynol. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae modd i ni gyfrannu i'r eithaf ar draws yr holl nodau. **Mae Prosiect Dyffryn Taf** yn enghraifft o sut y byddwn ni'n gwneud hyn.

# Sicrhau bod trigolion yn gweld dull cyfrifol o ran adfywio, gyda chartrefi newydd yn cael eu hadeiladu a chyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu.

## Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i arwain a gweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi prosiectau'r Fargen Ddinesig a fydd yn dod â buddsoddiad, cludiant gwell, tai a swyddi i'r rhanbarth, gan gynnwys cytuno ar 5 **ardal yn RhCT** lle mae modd i ni annog buddsoddiad ychwanegol;
- dechrau'r gwaith ar ddatblygiad Dyffryn Taf ac mae trafodaethau â thenantiaid posibl eisioes wedi dechrau cael eu cynnal;
- cefnogi 75 o fusnesau/sefydliadau drwy gymorth grant, a chreu a diogelu 62 o swyddi. Roedd hyn yn is na llynedd lle cafodd 90 o fusnesau eu cefnogi er mwyn creu 100 o swyddi. Roedd creu swyddi'n rhan allweddol o'r cymorth grant, sy'n atal rhai busnesau rhag gwneud cais am gymorth. Mae'r rhaglen gymorth bellach yn cael ei hadolygu er mwyn gweld a oes modd ystyried mesurau eraill o lwyddiant a thwf busnes;
- cefnogi datblygiadau tai ac ailddenyddio cartrefi oedd eisioes yn bodoli. Effaith hyn oedd 552 o unedau tai ychwanegol, 226 o gartrefi fforddiadwy newydd, a 204 eiddo gwag yn cael eu hailddenyddio;
- lansio Cymdeithas Dwristiaeth Rhondda Cynon Taf ym mis Tachwedd 2017, a chydweithio gyda busnesau lleol er mwyn deall eu barnau a'u phrofiadau. Hyrwyddo RhCT fel cyrchfan ymwelwyr ar gyfer twristiaid.

Ers llynedd, mae llai o eiddo manwerthu gwag yn yng nghanol ein trefi, sy'n gadarnhaol ar y cyfan. Serch hynny, doedd hyn ddim wedi digwydd yn Aberdâr, lle'r oedd mwy yn wag. Disgynnodd nifer yr ymwelwyr i ganol ein trefi ychydig, gyda'r gostyngiad mwyaf i niferoedd yr ymwelwyr yn Y Porth, sydd wedi gweld gwaith sylweddol angenrheidiol i ddiweddarau'r pibellau dŵr.

	eiddo manwerthu gwag eiddo	rhagor o ymwelwyr
 Pontypridd	7.0% 8.8% cynt	63,234 64,647 cynt
Aberdâr	14.0% 10.4% cynt	23,135 23,465 cynt
Y Porth	12.0% 14.0% cynt	9,407 11,037 cynt
Treorci	7.0% 5.8% cynt	15,135 15,516 cynt



## ADFYWIO EIDDO TYLORSTOWN

Roedd bloc yn cynnwys 8 fflat wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn, ac felly mewn cyflwr adfeiledig oherwydd doedd y perchnogion na'r lesddeiliaid ddim wedi cynnal y gwaith atgyweirio angenrheidiol i'r to. Cyflwynodd y Cyngor hysbysiad iddyn nhw yn nodi bod angen dymchwel neu adnewyddu'r adeilad. Ymgwymerodd y perchnogion â'r gwaith atgyweirio i'r to, ffenestri a'r strwythurau fertigol. Bellach, mae 7 allan o'r 8 fflat â phobl yn byw ynddyn nhw.

## Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- parhau i weithio â'n partneriaid i gynorthwyo gwelliannau hirdymor i'r economi lleol drwy'r Fargen Ddinesig a Gweithlu'r Cymoedd er mwyn denu buddsoddiad, cludiant gwell, tai a swyddi i'r ardal;
- cydweithio â phartneriaid er mwyn datblygu ardaloedd allweddol o fewn RhCT, gan gynnwys canol trefi Pontypridd a Thonypandy;
- cynnwys busnesau a chymunedau lleol yn y gwaith i gynorthwyo canol trefi eraill i fanteisio ar y twf yma;
- parhau i fynd i'r afael â thai anaddas ac eiddo gwag er mwyn i bobl a'r gymuned fwynhau eu hardaloedd lleol yn well;
- adeiladu ar y dreftadaeth gadarn a harddwch naturiol yr ardal er mwyn hyrwyddo RhCT fel cyrchfan i ymwelwyr, gan ddathlu diwylliant a hanes yr ardal.

## Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd cynnydd pellach o ran y Fargen Ddinesig, Tasglu'r cymoedd a phrosiectau ailddatblygu lleol;
- byddwn ni'n parhau i gyflenwi tai fforddiadwy a rhoi bywyd newydd i eiddo gwag;
- byddwn ni'n hyrwyddo RhCT i ragor o ymwelwyr drwy ddatblygu teithiau cerdded rhyngweithiol, ac ennill achrediad Amgueddfa Cymru ar gyfer Parc Treftadaeth Cwm Rhondda.

# Sicrhau bod ysgolion Rhondda Cynon Taf ymhlith y gorau yn y wlad, a bod y plant i gyd yn cyflawni cystal ag y bo modd.

## Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- cryfhau ein gwaith i sicrhau cysondeb o ran ansawdd addysgu a dull ymdrin ag absenoldeb disgyblion ar draws holl ysgolion Rhondda Cynon Taf;
- parhau i ganolbwyntio ar godi safonau a chau'r bwllch cyrhaeddiad rhwng plant dan anfantais a'u cyfoedion, er nad ydyn ni wedi cyflawni cymaint ag oedden ni wedi bwriadu;
- parhau â'n rhaglen gwella ysgolion yn Ysgolion Cyfun Treorci a Glynrhedynog. Rydyn ni hefyd wedi sefydlu Ysgol Gynradd y Cymer drwy gyfuno'r ysgol babanod a'r ysgol iau a oedd eisoes yn bodoli, ac wedi dechrau ailfodelu ac ailwampio'r adeiladau;
- dechrau adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle newydd yng Nghwmaman a fydd hefyd yn darparu ardal chwarae mewn lleoliad newydd sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio. Mae cyfleusterau eraill yn cynnwys ardal chwaraeon aml-ddefnydd, caeau gwair ac ystafell gymunedol;
- dechrau gwaith ar dair ysgol 'pob oed' newydd sef Ysgol Gymuned y Porth, Ysgol Gymuned Tonyrefail ac Ysgol Nant-gwyn (Tonypany), a fydd yn agor yn Hydref 2018;
- parhau i fuddsoddi mewn gwella adeiladau'r ysgolion eraill ledled y Fwrdeistref Sirol fel bod rhagor o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleusterau gwell;
- darparu rhagor o leoedd ar gyfer disgyblion sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg drwy adnewyddu ystafelloedd dosbarth a chynyddu'r lleoedd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyneclyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Rydyn ni hefyd wedi symud yr Uned Atgyfeirio Disgyblion, Canolfan Addysg Tai, i adeilad mwy modern sydd â chyfleusterau gwell.

## Rydyn ni'n gwybod bod rhagor o waith i ni ei wneud mewn rhai meysydd...

- bydd rhagor o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd y deiliant disgywliedig o ran y Cyfnod Sylfaen, gan leihau'r bwllch rhyngddyn nhw a'u cyd-ddisgyblion. Serch hynny, mae'r bwllch wedi ehangu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3. Er bod y dull newydd o fesur cyflawniad disgyblion eleni yn ei gwneud hi'n anodd i ni gymharu cynnydd o'r flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni'n gwybod bod angen i ni wneud rhagor er mwyn cau'r bwllch;
- mae'r bwllch presenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'r disgyblion sydd ddim yn gymwys wedi cynyddu 0.4%. Rydyn ni'n parhau i herio a chefnogi ysgolion, yn enwedig y sawl sydd yn achosi'r pryder mwyaf.

ASTUDIAETH ACHOS

## CYNORTHWYO DISGYBLION PRYDAU YSGOL AM DDIM YN YSTOD GWYLIAU'R YSGOL

Cafodd y rhaglen gyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol 'Bwyd a Hwyl' ei threialu yn Ysgolion Gynradd Heol y Celyn a Phen-y-waun. Mae gan y ddwy ysgol yma nifer fawr o ddisgyblion sydd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Er mwyn atal achosion o ddisgyblion yn 'gweld eisiau bwyd yn ystod y gwyliau', cawson nhw frecwest a chinio maethlon, a hefyd, eu hannog i roi cynnig ar goginio, chwaraeon a gweithgareddau addysgol yn ogystal â chymdeithasu gyda ffrindiau.


Roedd rhieni yn teimlo bod y rhaglen...

*"yn annog plant i fwyta bwydydd newydd yn y cartref".*


Dywedodd y disgyblion...

*"Baswn i'n dwlu pe bai rhagor o ddiwrnodau yn y clwb, a sesiynau hirach - Roeddwn i'n hoffi popeth."*

Yn dilyn yr adborth cadarnhaol yma, bydd y rhaglen bellach yn cael ei chyflwyno mewn ardaloedd eraill.



Disgyblion a enillodd 5 TGAU gradd A\* i C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.



Disgyblion Prydau Ysgol am Ddim ym mlwyddyn 11, 16 oed ar y cyfan, a enillodd 5 TGAU gradd A\* i C, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg.

Does dim modd i ni gymharu'r canlyniadau yma â llynedd oherwydd newidiadau i'r dull arholi, ac oherwydd y cymwysterau sydd ddim yn TGAU sydd wedi'u cynnwys yn y mesur. Dydy sawl cymhwyster galwedigaethol ar gyfer disgyblion llai academaidd ddim wedi'u cynnwys yn y canlyniadau. Yn gyffredinol, roedd cyflawniad yr ysgolion yn gymysg, ac roedd cyflawniad RhCT yn is na chyfartaledd Cymru o 54.6%.

## Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- gweithio gyda'n partneriaid rhanbarthol yng Nghonsortium Canolbarth y De er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau gwella a llesiant i wella deilliannau'r disgyblion;
- parhau i ganolbwyntio ar godi safonau addysg drwy wella parodrwydd y disgyblion i ddysgu a chau'r bwllch cyrhaeddiad rhwng plant dan anfantais a'u cyd-ddisgyblion;
- cynorthwyo teuluoedd sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys darparu'r rhaglen 'Bwyd a Hwyl' i ragor o ysgolion, a gwella'r cymorth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion iechyd meddwl;
- gwella cymorth i ddisgyblion sy'n ei chael hi'n anodd yn yr ysgol o ganlyniad i broblemau yn y cartref. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy wella'r modd rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid fel rhan o'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth;
- parhau â'r gwaith gwella hirdymor i adeiladu ein hysgolion drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan gynnwys tair ysgol 'pob oed', a chynnwys rhieni a'r cymunedau wrth i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer prosiectau'r dyfodol.


## Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn ennill canlyniadau da yn eu harholiadau TGAU. Y flwyddyn nesaf bydd hyn yn cynnwys 9 gradd uchaf y disgybl, gan gynnwys pynciau craidd.
- bydd llai o ddisgyblion yn cael eu gwahardd o'r ysgol;
- bydd adborth am y rhaglen gwyliau'r ysgol 'Bwyd a Hwyl' yn gadarnhaol, a bydd modd i ni ddechrau olrhain yr effaith ar lesiant disgyblion yn gyffredinol.

# Rhoi amrywiaeth eang o raglenni cyflogaeth a sgiliau ar waith ar gyfer pob oed

## Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- parhau i roi cymorth i bobl ifainc sy'n agored i niwed, ac sy'n anodd eu cyrraedd, i gael swyddi, gan ddefnyddio'r rhaglen 'Ysbrydoli i Weithio' gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop i ychwanegu at ein gwaith;
- parhau i roi cymorth i ragor o oedolion sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar i wella eu sgiliau, i ennill cymwysterau, ac i feithrin sgiliau ar gyfer swyddi penodol;
- parhau i ddarparu amrywiaeth o opsiynau ar draws y Cyngor a fydd yn helpu pobl ifainc i ddatblygu gyrfa, gan gynnwys ffeiriau gyrfaoedd, prentisiaethau, swyddi dan hyfforddiant, rhaglenni i raddedigion a phrofiad gwaith;
- darparu gofal plant ychwanegol ar gyfer 301 o blant tair a phedair oed. Roedd hyn yn rhan o gynllun peilot mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, er mwyn cynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio yn ogystal â helpu rhieni sydd ddim yn gweithio i ddod o hyd i gyflogaeth;
- rhoi cyfleoedd prentisiaeth, cyflogaeth a hyfforddiant ar waith fel rhan o'r prosiectau adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae contractwyr hefyd wedi cyflwyno sesiynau i ysgolion i drafod gyrfaoedd yn y diwydiant adeiladu.



ASTUDIAETH ACHOS

## Ysbrydoli i Weithio

Mae 'P' yn berson ifanc 19 oed o Aberdâr. Roedd wedi bod yn ddi-waith am 6 mis cyn ymuno â'r rhaglen llwybr i waith 13 wythnos. Drwy'r rhaglen, cwblhaodd wythnos o brofiad gwaith, yn ogystal ag ennill cymhwyster iechyd a diogelwch a cherdyn cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, cafodd P swydd gyda chwmni cyflenwadau meddygol lleol.

Dyweddod P...

*"roedd y cwrs yn linell bywyd i mi, ac wedi fy nhywys ar y llwybr cywir".*

## Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- parhau i gynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith, gan gynnwys y sawl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau;
- gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd dysgu yn y gymuned i oedolion, sy'n mynd i gynorthwyo pobl i ennill sgiliau hanfodol, gwella'u llesiant, a magu'u hyder;
- gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu gweithlu medrus a fydd yn golygu bod rhagor o drigolion RhCT yn gallu ceisio am swyddi;
- parhau i helpu pobl i wella'u sgiliau digidol drwy ehangu sesiynau 'Dydd Gwener Digidol' a gweithdai a chyrtsiau eraill;
- cyfrannu at wella deilliannau addysgol, a chael gwared ar rwystrau i waith drwy ddarparu rhagor o lefydd 'cyn-feithrin' a rhagor o ofal plant am ddim i blant cymwys sy'n dair a phedair oed;
- gweithio gyda phartneriaid i lywio'r gwaith sy'n gysylltiedig â darparu Amcan Llesiant Cwm Taf - Economi Gref.

## Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o bobl yn derbyn cymorth i ddod o hyd i waith, gan gynnwys pobl ifainc a phobl sydd ag anabledau dysgu;
- bydd rhagor o bobl ifainc yn gadael yr ysgol ac yn symud ymlaen i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- bydd rhagor o'n trigolion yn gwella'u sgiliau digidol trwy gysiau rydyn ni'n eu darparu. Bydd hyn hefyd yn darparu cyfleoedd i atal pobl rhag cael eu hynysu'n gymdeithasol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i **'Adeiladu economi gref'** yn ein cynllun **ECONOMI 2018/19**. Bydd ein gwaith yn galluogi RhCT i gyfrannu at Gymru fwy ffyniannus, cyfartal ac iachach, yn ogystal â Chymru o gymunedau cydlynus, gyda diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.



# POBL:

Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb

# POBL

## Hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb

### Gwybodaeth allweddol am Rondda Cynon Taf

- RhCT sydd â'r disgwyliad oes cyfartalog isaf (76.6 oed i ddyddion, 80.9 oed i fenywod) a'r disgwyliad oes iach cyfartalog isaf (61.2 oed i ddyddion, 62.6 oed i fenywod) yng Nghymru.
- Mae gan 94.4% o oedolion 60 oed neu'n hŷn gerdyn teithio rhatach, sy'n eu helpu nhw i deithio o gwmpas a chynnal eu lles.
- Mae 77.8% o blant yn y cyfnod sylfaen sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi cyflawni'r safon ddisgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod sylfaen (Blwyddyn 2, fel arfer 7 oed). Er bod hyn wedi cau'r bwch, dydy plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ddim yn cyflawni cystal â disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim.
- Mae 62% o'r atgyfeiriadau i'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ardal Cwm Taf yn gysylltiedig ag alcohol, ac mae 38% yn gysylltiedig â sylweddau.
- Dywedodd 19% o oedolion dros 16 oed a gafodd eu holi am eu harferion rhyngweithio cymdeithasol eu bod nhw'n unig.
- Mae gan RhCT sgôr o 4 o ran ynysu cymdeithasol yn y Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru newydd. Mae sgôr o 10 yn nodi amodau eithriadol o dda o ran lles ac mae sgôr o 0 yn nodi amodau eithriadol o wael.
- Mae gan RhCT sgôr o 2.34 o ran amddifadedd ym **Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru**. Mae sgôr o 10 yn nodi amodau eithriadol o dda o ran llesiant ac mae sgôr o 0 yn nodi amodau eithriadol o wael.



Yn 2017, fe ddywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb.

Rydyn ni wedi gwneud cynnydd yn ein gwaith ar gyfer blaenoriaeth Pobl, yn Gyngor ac yn rhan o bartneriaethau ehangach. Mae'r hyn rydyn ni'n ei fesur yn dangos rhai gwelliannau cadarnhaol. Serch hynny, does dim modd i ni gymharu ein cyflawniad â gweddill Cymru am nad oedd yr wybodaeth yma ar gael yn 2016/17 ar gyfer y mwyafrif o'r hyn sy'n cael ei fesur ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Rydyn ni wedi gweithio'n galed i helpu pobl i adael yr ystyby a dychwelyd i'w cartrefi neu i gartref gofal yn gynt ac mewn ffordd fwy diogel pan maen nhw'n barod i wneud hynny. Roedd dros 53% yn llai o bobl yn aros i adael yr ystyby am resymau gofal. Mae blwyddyn lawn gyntaf y gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, a gafodd ei lansio gyda'n partneriaid yng Nghyngor Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, wedi cyfrannu'n helaeth at y llwyddiant yma.
- Rydyn ni am i'r cymorth a'r wybodaeth gywir fod ar gael i deuluoedd yn gynharach, fel bod llai o blant a phobl ifainc angen cymorth y Gwasanaethau i Blant statudol. Yn 2017/18, mae rhagor o bobl wedi cysylltu â'r Gwasanaethau i Blant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae rhagor o blant wedi cael eu hatgyfeirio at ymyrraeth gan y gwasanaethau statudol. Bydd ein Cynllun Teuluoedd Cydnerth a'n Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn ceisio lleihau nifer y plant y mae angen ymyrraeth arny'n nhw yn 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu ymyrraeth gynnar, a'i hatal yn y lle cyntaf, fel bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth y mae ei hangen arny'n nhw i'w helpu i oresgyn unrhyw broblemau a fydd yn eu hwynebu.

### GWELLA DEALLTWRIAETH

Bu grŵp o Gyngorwyr yn edrych ar effaith 'todi misglwyf' ar ferched yn ein hysgolion. Yn rhan o'r gwaith yma, cawson nhw sgyrsiau â disgyblion am eu profiadau, yn ogystal â gwyllo

**ffilm wedi'i hanimeiddio** a gafodd ei chynhyrchu gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg. Fe ddysgon nhw fod gwybodaeth am y misglwyf ac argaeledd cynhyrchion glanweithiol yn wahanol ar draws ein hysgolion. Yn ogystal â hynny, roedden nhw wedi canfod bod rhai disgyblion yn methu â fforddio cynhyrchion glanweithiol ac roedd hyn yn effeithio ar eu preifatrwydd, eu hurddas a'u lles. Roedd hefyd yn effeithio ar eu presenoldeb a'u cyflawniad yn yr ysgol. O ganlyniad i hyn, cytunodd Cyngorwyr ar nifer o argymhellion, gan gynnwys:

- **sicrhau bod nwyddau glanweithiol ar gael i ddisgyblion mewn pob ysgol.** Mae modd iddyn nhw fynd i ôl y nwyddau yma o'r tai bach;
- sicrhau bod pob merch 9 oed a hŷn yn gwybod ble i fynd i ôl nwyddau glanweithiol;
- codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â misglwyf gyda phob ysgol, disgybl, aelod o staff, rhiant a chynhaliwr.

I gael rhagor o wybodaeth, bwriwch olwg ar yr adroddiad o gyfarfod y Cabinet a gafodd ei gynnal ar **19 Ebrill 2018**.



Mae rhagor o fanylion am ein cynnydd mewn perthynas â'r hyn roedden ni'n ceisio ei gyflawni yn **2017/18 yn ein Gwerthusiad Cyflawniad**.

Mae hyn yn cynnwys sut mae RhCT yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol, ac yn arbennig Cymru o Gymunedau Cydlynol a Chymru Iachach. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae modd i ni gyfrannu i'r eithaf ar draws yr holl nodau. Un enghraifft o sut y byddwn ni'n gwneud hyn yw ein gwaith i ddatblygu ein **cyfleusterau tai Gofal Ychwanegol**.


## Sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu personoli a'u hintegreiddio, gyda rhagor o bobl yn cael eu cefnogi i fyw'n hirach yn eu cartrefi eu hunain

### Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- rhoi'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref ar waith i helpu pobl i ddychwelyd i'w cartrefi o'r ysbyty yn gynt pan maen nhw'n barod i wneud hynny. Mae'r gwasanaeth yn dal i fod yn un newydd, ond yn barod mae llai o bobl wedi mynd i'r ysbyty yn dilyn ymweliad â'r Uned Damweiniau ac Achosion Brys, mae mwy o bobl wedi cael eu hanfon adref yn ddiogel ar ôl bod yn yr ysbyty ac mae mwy o bobl wedi mynd adref yn hytrach nag i ysbytai cymunedol. Mae'r gwaith yma wedi'i gyflawni drwy weithio'n wahanol gyda'r Garfan Iechyd a phartneriaid eraill;
- adeiladu ar lwyddiant ein cyfleuster gofal ychwanegol cyntaf yn **Nhŷ Heulog**, Tonysguboriau drwy sicrhau adeiladu ail gyfleuster gofal ychwanegol ar safle hen Gartref Gofal Maes-y-ffynnon yn Aberaman. Mae disgwyl i'r gwaith yma ddechrau ym mis Gorffennaf. Rydyn ni hefyd wedi nodi pedwar safle posibl ym Mhontypridd, Y Porth, Aberpennar a Threorci;
- buddsoddi mewn meysydd chwarae a chanolfannau hamdden fel eu bod nhw'n fwy deniadol a hygyrch i drigolion a chymunedau er mwyn eu hannog nhw i gymryd rhan mewn mwy o weithgareddau llesol ac aros yn iachach am yn hirach.



Yn fwy o ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth  
456 yn 2016/17



Oedolion a gwblhaodd cyfnod o ail-alluogi a oedd angen llai o gymorth 6 mis yn ddiweddarach.

Dim data i'w cymharu

Cleientiaid nad oedd bellach angen pecyn gofal a chymorth gennyn ni ar ôl 6 mis.

77.23 yn 2016/17



Pobl a aeth adref o'r ysbyty yn gynt - fesul 1,000 o'r boblogaeth

Yn ôl adroddiad, 4.95 yn 2016/17



Mae mwy o bobl yn defnyddio taliad uniongyrchol i reoli eu trefniadau gofal eu hunain

14.34% yn 2016/17



Yn fwy o ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth

7,581 yn 2016/17

### Andrew - yn byw yn Nhŷ Heulog

"Mae'n wych bod yma. Rwy'n annibynnol, mae fy iechyd wedi gwella ac mae modd i mi fynd allan o'r tŷ. Mae'n hawdd i mi gwrdd â phobl eraill a chymdeithasu ac rwy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Fyddai dim modd i mi wneud hyn o'r blaen. Mae'r staff a'r bobl o fy nghwmpas i yma wedi rhoi llawer mwy o hyder i mi, yn ogystal â theimlad o fod yn ddiogel."

Mae teulu Andrew wedi dweud bod symud i Dŷ Heulog wedi achub bywyd eu brawd.

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- rhoi trefniadau llety newydd ar waith ar gyfer pobl sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol sy'n integreiddio â'n strategaeth dai ar gyfer pobl hŷn, sef 'Fy Nthrothwy Fy Hun - Cynllun Tai ar gyfer Pobl Hŷn';
- datblygu gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yn y gymuned e.e. technoleg gynorthwyo, larymau cymunedol a gwasanaethau ymateb, gan ganolbwyntio ar ddewis, y gallu i reoli ac annibyniaeth sy'n caniatáu i bobl fyw yn eu cartrefi am yn hirach;
- parhau i fuddsoddi yn ein canolfannau hamdden i annog pobl i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau llesol, helpu i wella iechyd yn awr a hefyd i atal problemau iechyd yn y dyfodol.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...


- bydd llai o bobl yn cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrsio;
- bydd angen llai o gymorth ymhen chwe mis ar yr oedolion sy'n cwblhau cyfnod ail-alluogi;
- bydd rhagor o bobl yn mynd adref o'r ysbyty yn gynt;
- bydd rhagor o bobl yn talu'n uniongyrchol er mwyn rheoli'u trefniadau gofal eu hunain, fel bod modd iddyn nhw ddewis pwy sy'n darparu eu gofal a phryd;
- bydd mwy o bobl yn ymweld â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden.



## Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael dechrau gwych mewn bywyd

### Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- rhoi rhaglen ar waith i helpu nodi teuluoedd sydd angen cymorth yn gynnar yn y broses ac i'w helpu nhw i gael yr wybodaeth a'r gefnogaeth gywir mewn ffordd haws fel bod modd i ragor o blant aros gyda'u teuluoedd;
- datblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith sy'n canolbwyntio ar blant sy'n cael eu derbyn i'r gwasanaeth gofal, taith y plentyn wrth dderbyn gofal a phroses gadael gofal y plentyn. Rydyn ni wedi cynnwys plant wrth ddatblygu'r cynllun yma a byddwn ni'n parhau i wneud hynny yn y dyfodol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan fydd gwasanaethau'n esblygu.



Yn llai o blant wedi 'Derbyn Gofal' gan y Cyngor.  
690 yn 2016/17



Mae plant a phobl ifainc sy'n 'Derbyn Gofal' yn cael mynd yn ôl at eu teuluoedd cyn gynted ag y mae'n ddiogel i wneud hynny.



mewn llai na 12 wythnos  
24.5% yn 2016/17

o fewn 12-24 wythnos  
17.5% yn 2016/17



ar ôl 24 wythnos  
58% yn 2016/17



Llai o bobl sy'n gadael gofal sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.



Ar ôl 12 mis  
50.0% yn 2016/17

Ar ôl 24 mis  
53.0% yn 2016/17

### Rhiant sydd wedi cael cymorth gan y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth...

"Rwy'n falch iawn o'r hyn rydw i wedi'i gyflawni. Rydw i wedi darganfod bod modd i mi ymdopi gyda straen. Rwy'n llawer mwy hyderus ynof fi fy hun. Rwy'n agor llenni'r lolfa bob bore nawr. Doeddwn i byth yn ei wneud o'r blaen. Rwyf wedi gofyn am help i mi a fy merch gan y meddyg teulu. Fyddwn i byth wedi gwneud hynny o'r blaen. Mae fy merched yn cael cymorth yn yr ysgol ac rwyf am ddechrau mynd i ddosbarthiadau ymwybyddiaeth ofalgar. Ac rwy'n helpu mewn achlysur elusennol lleol yn y ganolfan gymunedol y penwythnos yma - sy'n wych i rywun doedd byth yn mynd allan!"

### ASTUDIAETH ACHOS

### GWASANAETH TEULUOEDD CYDNERTH...

Cafodd y gwasanaeth yma ei gyflwyno ym mis Ionawr 2018 i helpu teuluoedd ar draws Rhondda Cynon Taf. Mae'n darparu'r gefnogaeth gywir i deuluoedd ar yr adeg iawn, yn dileu rhwystrau ymarferol wrth ymdrin â newid, yn gweithredu'n gyflymach i roi cymorth drwy un man cyswllt dibynadwy ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweddu i anghenion y teulu i'r dim. Bydd hyn i gyd yn helpu i'r teulu fod yn gryfach gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu y bydd modd iddyn nhw oroesi unrhyw anawsterau os ydyn nhw'n codi. Mae teuluoedd yn cael cymorth tymor byr, hyd at 12 wythnos, gyda'r nod o'u helpu nhw i reoli'r heriau maen nhw'n eu hwynebu drwy ganolbwyntio ar eu cryfderau fel teulu. Er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth yma, rydyn ni'n gweithio gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc a'r Sector Gwirfoddol.

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- sicrhau ein bod ni'n clywed lleisiau plant a phobl ifainc sydd angen 'derbyn gofal' drwy eu cynnwys mewn sgrysiâu am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw a thrafod eu nodau llesiant;
- datblygu cynllun ar gyfer Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol i wella'r ystod o lety sydd ar gael yn lleol i blant lle does dim modd iddyn nhw aros gyda'u teuluoedd eu hunain;
- sicrhau bod y bobl ifainc hynny sy'n gadael ein gofal wedi'u paratoi'n ddigonol a bod modd iddyn nhw gyfrannu at y cymunedau maen nhw'n byw ynddyn nhw.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd mwy o deuluoedd yn cael cymorth yn gynt. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o blant angen ymyriadau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol;
- bydd llai o blant angen bod dan ofal y Cyngor.



## Ailgynllunio gwasanaethau lleol fel eu bod nhw'n integredig ac yn effeithlon

Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau fel bod trigolion yn cael yr un cymorth, yr un driniaeth a'r un ansawdd o ran gwasanaeth, waeth ble maen nhw'n byw yn ardal Cwm Taf;
- newid sut rydyn ni'n helpu teuluoedd fel eu bod nhw'n cael y cymorth sydd ei angen arny'n nhw yn gynt, a dydy eu problemau nhw ddim yn gwaethygu;
- ymestyn llwybr cyflogi Cymunedau yn Gyntaf sy'n helpu pobl i gael gwaith, fel ei fod ar gael i bawb yn RhCT;
- gweithio gyda'n partneriaid ni i wneud y gorau o gyfleoedd i bobl gael cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau llesol.



# 88.26%

Camddefnyddio sylweddau wedi'i gwtogi ymhlith y bobl rydyn ni'n gweithio â nhw

Dim modd ei gymharu oherwydd newidiadau yn niffiniad y mesur yma



# ↑ 1,242

Mwy o odolion wedi ennill cymhwyster trwy Cymunedau yn Gyntaf

1,018 yn 2016/17



# ↑ 413

Mwy o bobl dros 16 oed wedi cael cymorth i fynd i'r byd gwaith trwy Cymunedau yn Gyntaf

317 yn 2016/17

ASTUDIETH ACHOS

### LLWYBR CYFLOGAETH CYMUNEDAU YN GYNTAF I WASANAETH IECHYD GWLADOL CWM TAF

Cafodd 'N' ei diswyddo ar ôl 17 mlynedd yn ei rôl yn gynorthwyydd addysgu. Cafodd 'N' wahoddiad i achlysur Addysg i Oedolion a'r Adran Gwaith a Phensiynau a oedd yn rhoi gwybod i bawb am yr hyn a oedd ar gael iddyn nhw o ran cymorth i fynd yn ôl i'r byd gwaith. Roedd 'N' yn hynod o awyddus i gofrestru ar gwrs Paratoi i Ofalu'r GIG, gan mai bod yn nyrs oedd ei huchelgais erioed.

Ar ôl yr asesiadau cychwynnol a dau gyfweiliad ffurfiol, cafodd 'N' swydd ran amser gyda'r 'Banc Nyrsio', ac o fewn dim cafodd hi contract llawn amser gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae 'N' yn dal i fwynhau'r rôl yma 4 mis yn ddiweddarach.

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- parhau â'n gwaith i gefnogi teuluoedd trwy ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'n Rhaglen Teuluoedd Cydnerth ehangach, a hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon â phosibl. Byddwn ni'n integreiddio'r gwaith yma gyda Chanolfannau Cymunedol y Cyngor i sicrhau bod cymorth i deuluoedd ar gael mewn lleoliadau cymunedol;
- adolygu darpariaeth y gwasanaeth Blynnydoedd Cynnar yn Rhondda Cynon Taf fel rhan o Brosiect Integreiddio Blynnydoedd Cynnar Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys rhieni, teuluoedd a defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio am y dyfodol.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd rhagor o bobl yn cwtogi ar gamddefnyddio sylweddau;
- bydd modd i ragor o deuluoedd ymdopi'n well yn dilyn ymyrraeth gan y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i **'hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb'** yn ein cynllun **POBL 2018/19**. Bydd ein gwaith yn golygu bod modd i RhCT gyfrannu at Gymru fwy cydnerth, cyfartal ac iach, yn ogystal â Chymru o gymunedau cydlynus, gyda diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.



# LLEOEDD:


Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

# LLEOEDD

## Creu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw

### Gwybodaeth allweddol am Ronda Cynon Taf

- Mae 85% o'r teithiau yng Nghymru yn digwydd yn y car.
- Mae 94.4% o oedolion sydd dros 60 oed yn ddeiliaid tocyn mantais y bysiau
- Mae diffyg gweithgaredd corfforol yn costio £650 miliwn y flwyddyn i Gymru, yn ôl amcangyfrifon.
- Mae lefelau gweithgaredd corfforol oedolion yn ardal Cwm Taf ymhlith yr isaf yng Nghymru.
- RhCT sydd â'r ail gyfradd uchaf yng Nghymru o ran pobl yn yfed alcohol. Mae alcohol yn cyfrif am 62% o atgyfeiriadau at wasanaethau cam-drin sylweddau yng Nghwm Taf. Cwm Taf hefyd sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru o ran marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- Mae RhCT wedi ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 73,000 o dunelli o wastraff eleni, sef 61% o'r holl wastraff sydd wedi'i greu. Rydyn ni'n gweithio tuag at darged ailgylchu Llywodraeth Cymru 2024/25 sef 70%.
- Mae yna 9 ardal **Gwobr y Faner Werdd** a 2 **Gymuned Baner Werdd** yn Rhondda Cynon Taf.



Yn 2017, fe ddywedon ni y bydden ni'n parhau â'n gwaith i greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw, ac mae'r cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gadarnhaol.

### Rydyn ni wedi gwneud cynnydd cadarnhaol dros y flwyddyn ddiwethaf...

- Rydyn ni wedi gweithio gyda'n partneriaid yn y gymuned i barhau i gyflenwi'r Bartneriaeth Alcohol Cymunedol (PAC) ar gyfer Y Porth, ac rydyn ni wedi gwerthuso'r deilliannau. Dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw'n gweld llai o bobl ifainc yn yfed alcohol yn yr ardal. Mae ein gwaith gyda phobl ifainc sy'n troseddu am y tro cyntaf drwy Raglen 'Divert' Cwm Taf hefyd wedi bod yn gadarnhaol, gyda'r gyfradd aildroseddu o fewn 6 mis i'r rhaglen yn aros yn isel. Rydyn ni hefyd wedi cynnwys ein trigolion ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor trwy ymgynghoriadau ar orfodi ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghanol ein trefi.
- Rydyn ni wedi buddsoddi mewn caeau 3G er mwyn parhau â'r ddarpariaeth chwaraeon integredig i ysgolion a chymunedau. Rydyn ni'n parhau i gynnal a chadw ein seilwaith ffyrdd drwy fuddsoddi arian i drwsio ffyrdd, pontydd a phalmentydd a chynnal cynlluniau ar y priffyrdd fel Heol Cwmbach a'r gylchfan. Rydyn ni wedi edrych yn fanwl ar ein priffyrdd eleni, ac erbyn hyn mae llai o ffyrdd mewn cyflwr gwael cyffredinol o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad i wella ein priffyrdd.
- Rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos gyda'n trigolion a'n cymunedau i ddeall yr hyn maen nhw am ei weld yn ein rhaglen Celfyddydau. Drwy gymryd rhan yn ein prosiectau celfyddydol, rydyn ni wedi darparu cyfleoedd i drigolion fagu hyder, gwella'u sgiliau cyfathrebu, bod yn rhan o bethau, cefnogi eu lles a chynnig cyfleoedd o ran addysg a chyflogaeth.
- Dydyn ni ddim wedi cyflawni ein targed ailgylchu eleni oherwydd newid cenedlaethol yn yr hyn y mae modd i ni ei gynnwys yng nghategori 'ailgylchu coed' yn ein ffigurau. Er gwaethaf hyn, rydyn ni'n gwybod bod cynnydd sylweddol wedi bod o ran ailgylchu bwyd, cewynnau a rwbel. Rydyn ni hefyd wedi agor siop 'aildefnyddio' llwyddiannus yn Llantrisant o'r enw '**The Shed**', ac wedi cynnal gwaith cyhoeddusurwydd llwyddiannus gyda'r ymgyrch '**Ewch â'r C\*Ch\* Da Chil**' er mwyn gorfodi a chefnogi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) mewn perthynas â rheoli cŵn ar draws RhCT.



Mae modd gweld rhagor o fanylion am ein cynnydd o'i gymharu â'r hyn roedden ni'n ceisio'i gyflawni yn **2017/18 yn ein Gwerthusiad Cyflawniad**.


Mae hyn yn cynnwys sut mae RhCT yn cyfrannu at y saith nod Llesiant cenedlaethol. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae modd i ni gyfrannu i'r eithaf ar draws yr holl nodau. Mae datblygiad y **Prosiect Parciau i'r Bobl ym Mharc Coffa Ynysangharad yn enghraifft o hyn**.

## Fel bod cymunedau Rhondda Cynon Taf yn fwy cydnerth ac wedi'u hymgysylltu

### Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- trefnu achlysuron celfyddydol yn ein theatrau sy'n helpu i gyfoethogi bywydau ein trigolion o bob oed, gan gynnwys Cacen a Chân ar gyfer ein trigolion hŷn a chyfleoedd i berfformwyr ifainc berfformio drwy fenter **'Jam Poeth'** lle mae modd iddyn nhw ddatblygu eu sgiliau ochr yn ochr â pherfformwyr proffesiynol;
- newid y ffordd rydyn ni'n gweithio er mwyn dod â phobl at ei gilydd a meithrin cydnerthedd a gallu cymunedol. Mae hyn wedi symud o'r Rhwydweithiau Cymdogaeth gwreiddiol i'r Canolfannau Cymunedol ar draws y Fwrdeistref Sirol gan ddechrau yn Aberdâr, Glynrhedynog ac Aberpennar;
- gweithio gyda theuluoedd i helpu rhieni a phlant i gydweithio i wella eu sgiliau darllen ac ysgrifennu, a hynny drwy brosiect **Petra**.

Dydyn ni ddim wedi dod â'r grwpiau Pobl Ifainc a Phobl Hŷn ynghyd mor gyflym ag yr oedden ni'n gobeithio, er ein bod yn dal yn bwriadu gwneud hyn. Bydd y Canolfannau Cymunedol newydd yn rhoi cyfle arall i ddod â'n trigolion hŷn ac ifainc ynghyd. Mae modd gweld sut mae hyn eisoes yn digwydd yn yr adran POBL, a hynny drwy'r cyfleusterau gofal ychwanegol newydd.



**Mae preswylwyr yn fodlon ar fyw yn Rhondda Cynon Taf**  
85% yn 2016/17  
(Astudiaeth Genedlaethol i Gymru - data 2016/17)

## Sicrhau bod Rhondda Cynon Taf ymhlith y lleoedd mwyaf diogel yng Nghymru, lle mae pobl yn dod ymlaen gyda'i gilydd a lle mae trigolion yn teimlo'n ddiogel

### Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- dadansoddi canlyniadau sefydlu'r Bartneriaeth Alcohol Cymunedol yn y Porth. Mae trigolion bellach yn gweld llai o bobl ifainc yn yfed alcohol a llai o lefydd lle mae yfed dan oed yn problem, gan arwain at amgylchedd mwy diogel a mwy plaserus i bawb. Serch hynny, tra bod llai o bobl 15 oed wedi yfed alcohol yn ystod yr wythnos flaenorol, roedd mwy wedi bod yn feddwl yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, ac roedd mwy yn meddwl bod pobl ifainc yn yfed alcohol i edrych yn cŵl o flaen eu ffrindiau;
- parhau i fonitro a chodi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Mae ein dadansoddiad yn dweud bod mwy o Droseddau Casineb yn cael eu hadrodd a bod dros 60% o'r Troseddau Casineb hynny yn hiliol eu natur;
- atal aildroseddu drwy weithio gyda phobl ifainc rhwng 18 a 25 oed sydd wedi troseddu am y tro cyntaf drwy'r Rhaglen 'DIVERT'. Doedd 96% o'r rhai a oedd wedi bod ar y rhaglen ddim wedi aildroseddu o fewn chwe mis.

### Dyfyniadau gan unigolion a gymerodd ran yn Rhaglen DIVERT

*"Rwyf wedi dysgu stopio a meddwl am yr hyn rwy'n ei wneud ac ar bwy bydd yn effeithio. Y tro nesaf bydda i'n cerdded i ffwrdd".*

*"Mae'r cwrs wedi fy addysgu y byddai'n ddoeth dan rai amgylchiadau i gymryd ychydig eiliadau i feddwl y tro nesaf am yr hyn rwy'n ei wneud, a'r canlyniadau".*

*"Bydda i'n meddwl cyn i mi wneud pethau pan fydda i'n mynd allan i yfed - pethau fel yfed llai, peidio ag ildio i demtasiwn, meddwl am fy nheulu a'm ffrindiau, achos byddai modd i mi effeithio ar eu bywydau nhw yn ogystal â fy mywyd i".*

### Dywedodd Rhiant un o Gyfranogwyr Jam Poeth


*"Bob dydd mae hi wedi siarad am ei phryderon a'i chyffro ar y cwrs yma. Rwy'n gwybod ei bod hi'n ei fwynhau'n llwyr... rwyf wrth fy modd yn ei gweld hi'n datblygu."*

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- datblygu Canolfannau Cymunedol yn Aberdâr, Aberpennar a Glynrhedynog. Mae'r gwaith yma hefyd yn cyfrannu at Amcan Llesiant Cwm Taf ar gyfer 'Cymunedau Ffyniannus' fel sy'n cael ei nodi yng **Nghynllun Llesiant Cwm Taf**.
- gwella'r ddarpariaeth yn llyfrgelloedd y Cyngor i ddiwallu angen y gymuned yn y tymor hir;
- sefydlu rhaglen Celfyddydau a fydd yn cyfoethogi bywydau holl drigolion RhCT, ac yn dathlu 80 mlynedd o Theatr y Colisëwm;
- datblygu 'Strategaeth Ymgysylltu' a fydd yn cynnwys trigolion a chymunedau, gan gynnwys lleisiau'r rheiny sydd ddim bob tro yn cael eu clywed;
- datblygu'r cynllun dyrannu tai newydd i gefnogi'r angen am dai yn y tymor hir;
- datblygu Parc Eco Bryn Pica, gan sicrhau integreiddio â mentrau cenedlaethol eraill, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd ein trigolion yn fodlon ar fyw yn Rhondda Cynon Taf



**Dywedodd trigolion wrthon ni eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio**  
69% yn 2016/17

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- darparu gwasanaethau a rhaglenni diogelwch cymunedol y mae trigolion yn rhan ohonyn nhw, gan gynnwys...
  - hyrwyddo arferion yfed cyfrifol yn ein cymunedau;
  - lansio Partneriaeth y Cynllun Gweithredu Cymunedol ar gyfer Pontypridd.
- cymryd camau i atal damweiniau traffig ar y ffyrdd yn y gymuned gan gynnwys...
  - darparu mentrau diogelwch ar y ffyrdd;
  - gorfodi cyfyngiadau parcio mewn ysgolion.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd llai o bobl yn aildroseddu o ganlyniad i'r rhaglen DIVERT;
- byddwn ni hefyd yn cyflwyno dull sy'n mesur pa mor ddiogel mae ein trigolion yn teimlo yng Nghanol ein Trefi.

# Cadw Rhondda Cynon Taf yn lân ac yn ddeniadol, gyda ffyrdd a phalmentydd sy'n cael eu cynnal yn dda, traffig sy'n llifo a rhagor o wastraff yn cael ei ailgylchu yn lle mynd i'r safle tirlenwi

## Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- gwella cyflwr a diogelwch y seilwaith ffyrdd a phriffyrdd yn rhan o'n rhaglen **'BuddsoddiadRhCT'**, e.e. Ffordd Mynydd y Rhigos, atgyweirio pont Ffordd Llantrisant, llwybrau troed newydd, atgyweirio'r ffensys diogelwch a rhoi mesurau diogelwch newydd ar waith;
- cyflwyno cynlluniau trafndiaeth sy'n hyrwyddo cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus ar draws RhCT, gan leihau'r pwysau ar ein ffyrdd, e.e. Llwybr Cymunedol Llantrisant, Llwybrau Diogel i ysgolion a llwybrau i feicwyr;
- parhau i godi ymwybyddiaeth o ailgylchu ymysg ein trigolion a chynyddu faint o wastraff bwyd a gwastraff cyffredinol rydyn ni'n ei ailgylchu;
- mynd i'r afael â chŵn yn baeddu trwy gyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ar y cyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth gadarn o'r enw **'Ewch â'r C\*Ch\* 'Da Chi!'**, yn ogystal â rhagor o waith gorfodi.



↓ **61.31%**

**Gwastraff a gafodd ei ailgylchu**  
64.41% yn 2016/17

*Mae'r ffigur yma'n gamarweiniol, gan fod y ffordd y mae ailgylchu yn cael ei fesur wedi newid. Erbyn hyn, dydy pren ddim yn cael ei gyfrif.*



↔ **99.4%**

**Rydyn ni wedi cynnal ein safonau uchel o ran cadw RhCT yn lân**  
99.4% yn 2016/17



↑ **96.94%**

**Gwastraff tipio anghyfreithlon wedi'u clirio mewn llai na 5 diwrnod gwaith**  
96.87% yn 2016/17

ASTUDIAETH ACHOS

## O'R NEWYDD...

Mae ein siop newydd, nid er elw, o'r enw **'Y Sied'** yn Llantrisant, yn rhoi bywyd newydd i eitemau diangen trigolion, o lyfrau i ddodrefn, fel eu bod nhw ddim yn mynd i'n safle tirlenwi. Ers iddi agor ym mis Mehefin 2017, mae 42,869 o eitemau wedi dod o hyd i gartrefi newydd. Rydyn ni wedi creu dwy swydd newydd yn Y Sied, yn darparu profiad gwaith ac yn croesawu gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu tua 200 awr bob mis i'r adnodd cymunedol yma.

## Dywedodd un o wirfoddolwyr 'Y Sied'...

*"Mae bod yn y 'Y Sied' wedi fy helpu i fod yn fwy hyderus.... Rwy'n berson mewnblyg a swil, ond mae hynny wedi newid yn llwyr. Nawr rwy'n hyderus i siarad ag unrhyw un. Y Sied yw canol ein cymuned. Mae pawb wrth eu bodd gyda'r lle, o'r gwirfoddolwyr a'r staff i'r cwsmeriaid"*

ASTUDIAETH ACHOS

## BRO-GARWYR TRA MAD

Mae ein gwobrau 'Bro-garwyr Tra Mad' blynyddol yn dathlu ac yn llongyfarch pobl RhCT sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl wrth warchod ein hamgylchedd lleol a helpu i gadw ein Bwrdeistref Sirol yn lle glân a gwyrdd i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. **Yn 2017**, yr enillydd cyffredinol oedd Sarah Liney, Pencampwr yr Amgylchedd a sylfaenydd Grŵp 'Llanharan a Brynna Wimbles' sy'n helpu i gadw'r gymuned leol yn lân a thaclus.

## Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar gyfer rheoli cŵn

Ym mis Hydref 2017, cawson ni gefnogaeth trigolion er mwyn gweithredu Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus **ar gyfer rheoli cŵn**, yn ogystal â chynnal yr ymgyrch **"Ewch â'r C\*Ch\* 'Da Chi!'** i fynd i'r afael â chŵn yn baeddu drwy gamau gorfodi. Hyd yn hyn, mae 170 o hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â chŵn mewn ardaloedd cyfyngedig, cŵn yn baeddu a chŵn oddi ar dennyn.

## Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- gwella cyflwr ein ffyrdd a'n priffyrdd;
- datblygu cynlluniau pwysig a fydd o fudd i gymunedau yn awr ac yn y dyfodol;
- datblygu cynlluniau trafndiaeth a fydd yn gysylltiedig â darpariaeth trafndiaeth arall, gan gynnwys teithio llesol;
- gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, i atal perygl llifogydd;
- parhau i gynnwys trigolion yn ein cynlluniau i gynyddu faint sy'n cael ei ailgylchu;
- cymryd camau i atal troseddau amgylcheddol trwy addysg, ymgysylltu ac fel dewis olaf, camau gorfodi.

## Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd mwy o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu;
- bydd llai o hysbysiadau cosb yn cael eu cyhoeddi.

## Fel bydd modd i chi barhau i werthfawrogi parciau a mannau gwyrdd Rhondda Cynon Taf

### Ymhlith pethau eraill, rydyn ni wedi...

- darparu cae 3G yn Ysgol Gymuned Tonyrefail i'w ddefnyddio gan yr ysgol a'r gymuned, yn ogystal â chaeau ar gampws Garth Olwg ac yng Nghanolfan Hamdden Abercynon;
- parhau i baratoi Cynllun Bioamrywiaeth a fydd yn sicrhau ein bod ni'n diogelu ein hamgylchedd, yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar wasanaethau, e.e. creu swyddi a chartrefi a gwella iechyd ac addysg;
- cyflwyno cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri i helpu i adfer safle'r seindorf a'r ardd gudd ym Mharc Coffa Ynsyngarad, a datblygu cyfleuster hyfforddi garddwriaethol. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda **Meysydd Chwarae Cymru** er mwyn enwi Parc Coffa Ynsyngarad yn safle **Maes Canmlwyddiant** yn rhan o ymgyrch genedlaethol i nodi canmlwyddiant ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

### Detholiad o adborth am Barc Coffa Ynsyngarad, Pontypridd.

*"Mae safle'r seindorf yn edrych bron yn ddiwerth. Byddwn i wrth fy modd yn gweld bandiau yn chwarae yn safle'r seindorf eto".*

*"Byddai diwrnodau wedi'u clustnodi ar gyfer helpu gyda gwaith cynnal a chadw neu ddyddiau i'r teulu i blannu planhigion yn dda ...pe bai modd i ni gynnal sesiynau penwythnos i deuluoedd, rwy'n siŵr y byddai pobl leol yn fodlon helpu".*

### Mae ein cynlluniau ar gyfer 2018/19 yn cynnwys...

- datblygu cyllid grant i ailddatblygu ein safleoedd treftadaeth a sicrhau dyfodol hirdymor Parc Coffa Ynsyngarad, Parc Treftadaeth y Rhondda a Pharc Aberdâr;
- cyfathrebu'n well gyda'n trigolion ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- ceisio ennill safon genedlaethol 'Gwobr y Faner Werdd' ar gyfer Parciau Ynsyngarad a Ffynnon Taf, a Pharciau Gwledig Aberdâr a Chwm Dâr.

### Byddwch chi'n gwybod ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth oherwydd...

- bydd trigolion yn fodlon â'n parciau a'n mannau agored.



Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â sut y byddwn ni'n parhau â'n gwaith i **'Greu cymdogaethau y mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw'** yn ein cynllun **LLEOEDD 2018/19**. Bydd ein gwaith yn golygu bod modd i RhCT i gyfrannu at Gymru fwy ffyniannus, cyfartal ac iachach, yn ogystal â Chymru o gymunedau cydlynus, gyda diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.



# CYLLIDEB:

incwm, gwariant, refeniw,  
cyllid, adnoddau, economi,  
effeithlonrwydd.



# CYLLIDEB

## Gwneud y defnydd gorau o'n cyllideb - Torri'r gôt yn ôl y brethyn

Fel pob Cyngor yng Nghymru, mae Rhondda Cynon Taf wedi gweithredu ers bron i ddegawd mewn hinsawdd economaidd heriol, gyda chyllid yn gostwng ochr yn ochr â chwyddiant yn codi a galw cynyddol am wasanaethau. Yn ystod yr amser yma, rydyn ni wedi arbed tua £87miliwn heb orfod torri gwasanaethau rheng flaen. Rydyn ni wedi gwneud hyn trwy reoli'n harian yn ofalus, cynllunio ymlaen llaw a newid sut rydyn ni'n gweithio.

Yn 2018/19 cafodd y Cyngor 0.5% yn fwy o gyllid o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd angen i ni ystyried chwyddiant o tua 2.3%. Roedd hyn yn golygu, ynghyd â'r galw cynyddol am wasanaethau, fod angen i ni arbed £9.8miliwn er mwyn pennu'r gyllideb. Roedd modd i ni wneud yr arbedion yma trwy brynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon, newid sut mae'r Cyngor wedi'i strwythuro, buddsoddi mewn technoleg a gweithio ar y cyd ag eraill yn amlach. Hefyd, roedd modd i ni gadw cynnydd yn Nhreth y Cyngor i 3.3%, sef yr isaf yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion am ein **cyllideb referniw** o£471.6miliwn ar gyfer 2018/19 i'w gweld yma.

Yn rhan o'n blaen gynllunio, rydyn ni wedi amcangyfrif y bydd angen i ni arbed hyd at tua £50miliwn erbyn 2021 er mwyn mynd i'r afael â gostyngiadau parhaus yng nghyllid y llywodraeth a'r galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol. Rydyn ni'n gwybod y bydd yn anoddach i wneud arbedion flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y dyfodol. Felly, dyma pam rydyn ni'n parhau â'n dull o archwilio pob rhan o gyllideb y Cyngor ochr yn ochr â rhaglen o fuddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau allweddol. Mae ein gwaith a'n buddsoddiad yn canolbwyntio ar:

- Ymyriadau cynnar a gwaith ataliol mewn ystod eang o feysydd er mwyn gwella bywydau trigolion. Mae hyn yn cynnwys ein Rhaglen Teuluoedd Cydnerth newydd sy'n cefnogi nifer cynyddol o deuluoedd ag anghenion cymhleth. Ei nod yw atal yr angen i blant fynd i ofal y Cyngor.
- Sicrhau bod modd i oedolion aros yn annibynnol trwy, er enghraifft, gydweithio â sefydliadau eraill ac integreiddio ein trefniadau i greu gwasanaeth Cadw'n lach Gartref rhanbarthol newydd. Mae'r Gwasanaeth yma yn ei flwyddyn gyntaf ac eisoes mae mwy o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynt ac mewn ffordd ddiogel. Mae hefyd yn helpu mwy o bobl hŷn i barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Creu rhagor o incwm drwy wasanaethau presennol neu wasanaethau newydd, er enghraifft, drwy gynnig gwasanaeth 'cyflym' ar gyfer ceisiadau cynllunio.
- Cynnig rhagor o wasanaethau ar-lein trwy gynnwys cwsmeriaid wrth ddylunio gwasanaethau a defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio sut mae'r Cyngor yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys rhoi'r modd i staff y Cyngor weithio o unrhyw swyddfa'r Cyngor fel bod modd iddyn nhw ddarparu gwasanaethau cyflymach fyth
- Dod yn fwy effeithlon trwy feddwl am y tymor hir a buddsoddi yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau effeithlonrwydd ynni 'buddsoddi er mwyn arbed' ac edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn cael gwared ar ddyblygu gwaith a gwaith papur.

Yn ogystal â hyn, yn rhan o'n rhaglen gyfalaf ar gyfer 2018/19 i 2020/21, rydyn ni'n buddsoddi £180miliwn yn y meysydd blaenoriaeth i wella'r isadeiledd a'r cyfleusterau sydd ar gael i drigolion ymhellach. Mae hyn yn cynnwys prosiectau adfywio, adeiladu gwell ysgolion, gwella cyflwr ffyrdd ac asedau cymunedol fel parciau a meysydd chwarae yn ogystal â buddsoddi ymhellach mewn cyfleusterau Canolfannau Hamdden.

Yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae ein cynlluniau yn parhau dros ddeng mlynedd, gyda'r Cyngor yn chwarae rhan ganolog wrth gyflenwi cynllun cyffrous ac uchelgeisiol i wella economi De Ddwyrain Cymru.



# EIN GWAITH

## Themâu pwysig sy'n sail i'n gwaith

### GWEITHIO NAWR ER LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Rydyn ni'n parhau i weithredu **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ar draws y Cyngor.

Mae'r Ddeddf yma'n golygu bod arnon ni ddyletswydd i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol trigolion, a innau'n gorff cyhoeddus yn gweithredu ar ein pennau ein hunain, h.y. y Cyngor, a hefyd wrth weithio ar y cyd gydag eraill yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB).

Yn gorff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes mewn ffordd sy'n integreiddio gofynion y Ddeddf yn rhan o bopeth rydyn ni'n ei wneud, sy'n cael ei nodi mewn Datganiad Polisi a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ym mis **Tachwedd 2016**. Wrth gyflawni ein blaenoriaethau, sef Economi, Pobl a Lleoedd, mae hyn yn golygu ein bod ni'n gwneud mwy ar draws ein holl wasanaethau i

- gydbwysio anghenion y tymor byr â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.
- gweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni amcanion.
- cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb a cheisio eu barn.
- defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- cymharu effaith ein gwaith â chyrrff a sefydliadau cyhoeddus eraill.

Mae angen i ni hefyd ddefnyddio'r dull yma wrth feddwl am ein prosesau a'n cynllunio sefydliadol, e.e.

- **Cynllunio Corfforaethol**  
sicrhau bod yr holl wasanaethau'n canolbwyntio ar yr hyn sydd fwyaf pwysig.
- **Cynllunio Ariannol**  
sicrhau ein bod ni'n parhau i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau a chanolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu.
- **Cynllunio'r Gweithlu**  
sicrhau bod gyda'n holl staff y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r newid yn y ffordd o feddwl a fydd yn helpu'r Cyngor i fodloni ei rwymedigaethau.
- **Caffael**  
sicrhau ein bod ni nid yn unig yn darparu gwerth am arian ond hefyd bod y gymdeithas yn elwa, a hynny heb fawr o effaith ar yr amgylchedd.
- **Asedau**  
defnyddio ein hadeiladau'n well fel bod modd i'r gymuned ddefnyddio rhagor ohonyn nhw, a'u rhannu nhw â gwasanaethau cyhoeddus eraill fel eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hir. Hefyd, darparu neu gefnogi trigolion a chymunedau i ddatblygu, yn ogystal â'n staff.
- **Rheoli Risg**  
sicrhau bod y risgiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn cael eu rheoli'n dda, ac yn caniatáu i'r Cyngor fodloni ei ofynion.
- **Rheoli Cyflawniad (Perfformiad)**  
sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos sut y mae'n gwneud cynnydd tuag at ei nodau llesiant ei hun a'r rhai y mae'n eu rhannu ag eraill.

Rydyn ni'n gwybod bod rhagor o waith i'w wneud ac rydyn ni'n parhau i holi pam, beth a sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud. Rydyn ni'n fodlon gwneud newidiadau a fydd o fudd i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n wirfoddol gyda chyrrff cyhoeddus a

sefydliadau eraill mewn llawer o wahanol bartneriaethau a threfniadau gweithio ar y cyd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i bob Cyngor weithio'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n golygu mabwysiadu **gwahanol ffordd o weithio** gyda chyrrff cyhoeddus eraill a chynnwys pobl a chymunedau yn rhan o'r gwaith.

Mae Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful yn gweithio gyda llawer o'r un cyrrff cyhoeddus, e.e. Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac yn 2016, cytunodd y ddau i ymuno â'i gilydd i ffurfio **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf**. Mae'r Bwrdd Partneriaeth yma'n cynnwys y ddau Gyngor yn ogystal â chyrrff cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws rhanbarth Cwm Taf.

Ym mis Mai 2018 cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei **Gynllun Llesiant** ar gyfer yr ardal. Mae'r Cynllun yn cynnwys gwybodaeth am y blaenoriaethau y bydd y Bwrdd yn canolbwyntio arny'n nhw yn awr ac yn y tymor hir, sef

- **CYMUNEDAU SY'N FFYNNU**
- **POBL IACHUS**
- **ECONOMI GREF**
- **MYND I'R AFael AG UNIGRWYDD AC UNIGEDD**

Bydd y Cyngor yn weithgar wrth arwain a chyfrannu at y blaenoriaethau eang hyn.

Cafodd y Cynllun ei lywio drwy gynnal **Asesiad o Llesiant** ardal Cwm Taf a thrafodaethau helaeth â thrigolion a rhanddeiliaid o bob rhan o Rondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae'r wybodaeth yn yr Asesiad o Llesiant yn cael ei diweddaru'n barhaus i lunio'r gwaith sy'n ein helpu i gyflawni'r Amcanion Llesiant lle bo modd cyflawni rhagor trwy gydweithio. Bydd hefyd yn helpu i gynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar Rondda Cynon Taf.

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf 2019 a fydd yn nodi ei gynnydd tuag at ei Amcanion Llesiant.

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru hefyd wedi nodi chwe blaenoriaeth i roi ffocws i'w gwaith o fewn cwmpas y Ddeddf.

**Creu'r seilwaith cywir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol lle bydd y ffocws ar y canlynol:**

- Stoc Dai
- Creu ynni ac effeithlonrwydd
- Cynllunio Cludiant

**Also providing support to residents and communities in the transfer of community assets.**

- Sgiliau
- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACES)
- Modelau amgen ar gyfer gwella iechyd a llesiant - yn aml o'r enw 'rhagnodi cymdeithasol' lle bydd cleifion yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau eraill er mwyn diwallu'u hanghenion llesiant, e.e. meddygon teulu yn atgyfeirio cleifion sy'n gwella ar ôl llawdriniaeth i ganolfan hamdden i helpu eu hadferiad.

Mae gyda ni hanes da o ran gwaith yn y meysydd yma. Mae llawer ohono wedi'i gynnwys yn ein cynnydd hyd yma a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## CYDRADDOLDEB

Y llynedd, roedden ni wedi addo adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi bod, roedd y gwaith yn arafach na'r disgwyl. Rydyn ni bellach yn cyflymu'r gwaith yma.

Rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth a data am y boblogaeth yn RhCT a'r hyn y mae trigolion eisoes wedi dweud wrthon ni, gwybodaeth am ein gwasanaethau a ffynonellau allanol fel adroddiadau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, i lunio a phennu Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig y Cyngor. Yna byddwn ni'n gofyn i'n trigolion os yw'r hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn berthnasol i'w bywydau. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r saith nod Llesiant cenedlaethol yn well. Bydd hyn yn golygu bydd modd i ni sefydlu sut rydyn ni, Y Cyngor, yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal yn benodol.

Yn y cyfamser, rydyn ni wedi parhau i weithio ar ein Hamcanion Cydraddoldeb blaenorol, hynny yw:

- **Achosion 'Troseddau Casineb' a 'Mynd i'r Afael ag Agweddau ac Ymddygiad Negyddol'**
- **Cyflogau'r Rhywiâu**
- **Datblygu Trefniadau Monitro Mwyr Cadarn**

### Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb ac Agweddau Negyddol yn Rhondda Cynon Taf

Rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid, gan gynnwys Heddlu De Cymru a landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae hyn wedi golygu bod modd i ni sicrhau bod trigolion yn cael ymateb cadarnhaol a chyson wrth roi gwybod i ni am Droseddau Casineb.

Gan ddatblygu ein partneriaeth â Heddlu De Cymru, rydyn ni bellach yn mynychu cyfarfodydd misol is-adran Troseddau Casineb Heddlu De Cymru. Mae mynychu'r cyfarfodydd yma yn sicrhau bod gyda ni ddata parhaus a chywir am ddiwyddiadau Troseddau Casineb ar draws RhCT a bod modd i ni fonitro ystadegau a nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg. Lle mae patrymau wedi'u nodi, rydyn ni'n cwrrdd â phobl yn y gymuned, gan ddefnyddio stondinau 'dros dro' mewn llyfrgelloedd ac archfarchnadoedd i godi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb. Rydyn ni hefyd yn siarad â thrigolion lleol am eu profiadau o droseddau casineb a sut y mae modd iddyn nhw roi gwybod amdany'n nhw.

Mae pwyslais wedi'i roi ar addysg ac ymrydd yn gynnar. Fe wnaethon ni nodi bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau troseddau casineb yn dod o ddisgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9, felly rydyn ni wedi mabwysiadu dull mwy rhagweithiol ac ataliol. Erbyn hyn, rydyn ni'n cyflwyno sesiynau i ddisgyblion Blwyddyn 6. Rydyn ni wedi gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig a cholegau, i ddarparu hyfforddiant PREVENT i staff a sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb i ddisgyblion. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, nod y sesiynau yma yw lleihau camwahaniaethu a chynyddu nifer y Troseddau Casineb sy'n cael eu hadrodd gan bobl. Rydyn ni wedi cydweithio â Chymorth i Ddiodefwyr a'r Comisiynydd Plant i sicrhau bod yr hyfforddiant yn addas i'r diben ac yn berthnasol i faterion sy'n ymwneud â throseddau casineb sy'n dod i'r amlwg.

Rydyn ni wedi sefydlu dwy broses newydd mewn perthynas â Throseddau Casineb

- Rhoi cymorth i ddiodefwyr risg uchel o Droseddau Casineb, trwy ddarparu offer a fydd yn lleihau troseddau, e.e. camerâu ffug, larymau ar gyfer ffenestri, sticeri ar gyfer ffenestri sy'n datgan bod Teledu Cylch Cyfyng yn weithredol yn ogystal â chyfeirio'r unigolion at wasanaethau priodol lle bo angen.
- Cymryd camau yn erbyn troseddwy'r Troseddau Casineb. Mae'r pwyslais wedi'i roi ar addysg a dulliau cyfiawnder adferol, lle rydyn ni'n cysylltu â'r rheiny sydd wedi cyflawni'r drosedd. Rydyn ni'n cynnal sesiynau wyneb yn wyneb gyda nhw gyda'r nod o leihau achlysuron tebyg yn y dyfodol.

Yn ystod wythnos Troseddau Casineb 2018, fe weithion ni ar y cyd â Heddlu De Cymru i gynnal amrywiaeth o achlysuron i ymgysylltu â'r gymuned. Cafodd y rhain eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ar draws RhCT, gan gynnwys ysbytai ac archfarchnadoedd. Drwy'r achlysuron yma, roedd modd i ni siarad â thrigolion am eu profiadau, codi ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb a chasglu ystadegau, sydd wedi ein helpu ni i ddeall profiadau trigolion yn well ac mewn ffordd fwy cywir.

Yn gynnar yn 2018, i gadarnbod ein gwaith a'n hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb o ran cyfeiriadedd rhywiol, cafodd y Cyngor ei gynnwys ymhlith 100 Cyflogwr Gorau Cymru yn ôl Stonewall. Er mwyn cyflawni hyn, fe gymeron ni ran ym Mynegai Cydraddoldeb y Gweithle Stonewall. Dyma'r dull meincnodi i gyflogwyr fesur eu cynnydd o ran cynhwysiant staff Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol (LHDT) yn y gweithle. Mae'r 100 o sefydliadau sy'n cyflawni orau yn cael eu cyhoeddi.

Roedd ein gwaith i gadw'r statws yma yn cynnwys ymgysylltu â thrigolion LHDT+ yn achlysur Pride Cymru yng Nghaerdydd yn rhan o bartneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill dan yr enw 'Cynghorau Balch'. Dywedodd trigolion RhCT a oedd wedi mynychu'r achlysur wrthon ni eu bod am i faterion LHDT+ yn ardal yr awdurdod lleol fod yn fwy gweladwy, a'u bod eisau rhagor o achlysuron LHDT+ yn eu cymunedau lleol.

Ar gyfer Mis Hanes LHDT, cafodd lluniau 'Eiconau a Chynghreiriaid' Pride Cymru eu harddangos ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda a Llyfrgell Pontypridd. Cafodd y lluniau eu harddangos hefyd yn swyddfeydd y Cyngor, lle'r oedd Perthyn a'r Rhwydwaith Cynghreiriaid wedi cynnal boreau coffi er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gymuned LHDT+. Fe gynhalion ni achlysur cymunedol yng Nghlwb Y Bont o'r enw 'Lleisiau Balch, Cymoedd Balch' lle edrychodd panel o bobl LHDT+ ar faterion fel 'bod yn LHDT+ yn y Cymoedd' a sut mae'r cyfryngau yn portreadu pobl Drawsrywiol. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi un o'n Cynghorwyr i sefydlu 'Cymoedd Balch', rhwydwaith LHDT+ Cwm Rhondda. Cafodd llawer o adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys Lido Ponty, Parc Treftadaeth Cwm Rhondda, Theatr y Parc a'r Dâr a Theatr y Colisëwm eu goleuo gyda lliwiau'r enfys er mwyn cydnabod Pride Cymru. Cafodd lluniau o'r adeiladau eu rhannau ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y negeseuon hyn wedi cyrraedd dros 10,000 o bobl ar Facebook a Twitter, gyda thros 1,200 yn hoffi/caru'r negeseuon. Roedd nifer o sylwadau cadarnhaol a chefnogol, gan gynnwys.

*"Am gefnogaeth wych!! Diolch Gyngor RhCT."*

*"Diolch am gefnogi Pride ac am ddangos eich bod chi'n cynnwys pawb."*

ASTUDIETH ACHOS

### MYND I'R AFAEL Â CHWYNION AM YRWYR TACSIS

Yn ystod 2017 roedd y cyhoedd wedi cwyno am yrwy'r tacsis yn RhCT a oedd yn gwrthod gadael i bobl mewn cadeiriau olwyn ddefnyddio'u tacsis. Aeth swyddogion y Cyngor sy'n gyfrifol am gyhoeddi trwyddedau tacsis ati ar y cyd ag aelodau o'r Fforwm Anabledd a'r rhwydwaith gweithwyr Anabledd a Chynhalwyr i gynnal sesiwn 'siopwr cudd' er mwyn asesu'r broblem. Roedd adborth cymysg gan y rhai a gymerodd ran. Roedd y mwyafrif o yrwy'r tacsis wedi derbyn cwsmeriaid mewn cadeiriau olwyn ac wedi darparu gwasanaeth i gwsmeriaid o safon dda. Serch hynny, doedd ychydig o yrwy'r ddim wedi derbyn y cwsmeriaid dan sylw. Roedd sawl rheswm am hyn wedi'u rhoi gan y gyrrwyr. Dywedodd un fod cist y tacsis'n llawn. Ar ôl i'r sesiwn 'siopwr cudd' ddod i ben, cafodd swyddogion y Cyngor gyfarfod â'r gyrrwyr tacsis nad oedden nhw wedi darparu gwasanaeth derbyniol er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw am ddisgwyliadau cwsmeriaid, codi ymwybyddiaeth o faterion anabledd a nodi'r hyn a fyddai'n digwydd wrth beidio â darparu gwasanaeth tacsis cynhwysol. Hefyd, mae pob gyrrwr tacsis trwyddedig yn RhCT bellach yn effro i faterion ynghylch anabledd. Byddwn ni'n parhau i godi ymwybyddiaeth am anabledd ledled y diwydiant tacsis, drwy gylchlythrau rheolaidd i yrwy'r tacsis a hefyd drwy'r cymhwyster BTEC y mae rhaid i bob gyrrwr tacsis ei gwblhau. Byddwn ni hefyd yn cymryd camau priodol pan fydd gyrrwyr/gweithredwyr trwyddedig ddim yn darparu gwasanaeth derbyniol a chynhwysol neu pan fyddan nhw ddim yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Unwaith eto, ym mis Ionawr 2018, fe gynhalion ni achlysur Diwrnod Cofio'r Holocaust yn Llyfrgell Rhydyfelin, gyda thua 100 o bobl yn bresennol. Cafodd yr achlysur yma ei drefnu gan nifer o sefydliadau ar y cyd, sef, Heddlu De Cymru, Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a Grŵp Darllenwyr Ifainc Llyfrgell Treorci. Yn yr achlysur yma, fe gofion ni am erchyllter yr Holocaust a'r hil-laddiad diilynol, gan godi ymwybyddiaeth o ragfarn sy'n bodoli heddiw a'r angen i roi gwybod am droseddau casineb. Yn dilyn yr achlysur cyhoeddus, cafodd gweithdy dwyieithog ei gynnal gyda disgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol Gynradd Heol Y Celyn. Roedd y gweithdy yn archwilio ystrydebau a throseddau casineb modern.

## Cyflenwi'r addewid sefydliadol Amser i Newid Cymru

Rydyn ni'n parhau i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd y meddwl. Y llynedd, fe ddywedon ni y bydden ni'n cynnal sesiynau 'Amser i Siarad' mewn ysgolion. Cafodd cyflwyniad ar yr ymgyrch 'Amser i Newid' ei gynnal i Benaethiaid, yn ogystal â sesiynau 'Amser i Siarad' mewn ysgolion er mwyn ymgysylltu â phob aelod o'r staff. Roedd cynghorydd o'n Huned Iechyd Galwedigaethol yn bresennol yn y sesiynau er mwyn darparu cyngor a chymorth yn y fan a'r lle os oedd eu hangen.

Mae aelodau o'n Rhwydwaith Cyngreiriaid wedi cael hyfforddiant gan Hrywyddwr 'Amser i Siarad' ac erbyn hyn mae'r Rhwydwaith Cyngreiriaid yn cefnogi'r sesiynau 'Amser i Siarad' yn rheolaidd. Yn ystod y sesiynau yma, mae llawer o'r staff wedi trafod materion sydd wedi effeithio arny'n nhw sydd heb gael eu datgelu o'r blaen. Mae hyn yn golygu bod modd i ni eu cynghori a'u cyfeirio at gefnogaeth addas, fel yr Uned Iechyd Galwedigaethol a chyrtsiau Ymwybyddiaeth Ofalgar a Chymorth â Straen Camau'r Cymoedd.

Rydyn ni hefyd wedi darparu gweithdai Caidnerthedd i Benaethiaid ysgolion cynradd ar draws y Fwrdeistref Sirol fel rhan o raglen llesiant ehangach.

## Cyflgau'r Rhywiau

Rydyn ni'n parhau i sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Cyngor yn cael ei drin yn gydradd â'i gilydd trwy ein gwaith parhaus yn rhan o'r prosiect Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi ('WAVE').

Mae ein rheolwyr yn parhau i gael hyfforddiant i'w helpu i adnabod a chael gwaread ar unrhyw ragfarn wrth recriwtio neu wrth ddyrchafu staff. Mae hyn yn cynnwys pecyn e-ddysgu newydd i gyd-fynd â sesiynau briffio rheolwyr a hyfforddiant arall sydd ar waith.

Rydyn ni wedi cyflwyno nifer o gynlluniau i ddarparu mwy o hyblygrwydd i'n staff, a fydd yn ei dro yn arwain at well gwasanaethau i'n trigolion, costau llai o ran gwasanaethau a gwel cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer ein staff. Mae hyn yn cynnwys dulliau Gweithio Hyblyg sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Cyngor. Mae hyn yn golygu bod modd i swyddogion sy'n treulio llawer o'u hamser yn gweithio yn y gymuned ac yn teithio ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ystod eu diwrnod gwaith weithio mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol drwy weithio mewn gwahanol swyddfeydd y Cyngor ar 'ddegiau gwag', ac felly, defnyddio'u hamser yn well. Mae hyn hefyd yn golygu eu bod nhw'n treulio llai o amser yn teithio o un swyddfa benodol. Cafodd y ffordd yma o weithio ei threalu mewn tri o'n meysydd gwasanaeth ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. O ganlyniad, mae staff wedi bod yn fwy cynhyrchiol ac mae'r hyblygrwydd a'r cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith wedi gwella.

Oherwydd llwyddiant y cyfnod prawf, bydd dulliau Gweithio Hyblyg yn cael eu hymestyn i feysydd gwasanaeth priodol eraill.

Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno 'Cynllun Prynu Gwyliau Ychwanegol'. Mae modd i weithwyr brynu 10 diwrnod ychwanegol o wyliau'r flwyddyn, a thalu amdany'n nhw yn rhan o'u cyflog dros gyfnod o 12 mis. Mae hyn yn golygu bod gan staff ragor o hyblygrwydd o ran rheoli eu hamser i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd yn helpu â chyfrifoldebau gofalu, gan leihau peth pwysau ar y cydbwysedd rhwng eu bywyd a'u gwaith.

Yn rhan o'n harolygon staff, roedd ein canfyddiadau yn dangos bod menywod â swyddi ar y graddau is yn llai tebygol o gael y cyfle i adolygu eu cyflawniad gyda'u rheolwr llinell. Byddai adolygiad o'r fath yn rhoi cyfle i'r menywod yma ganfod mwy am y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw i symud ymlaen, e.e. rolau ar gyflogau uwch. O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg, rydyn ni wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y menywod yma yn cael cyfarfodydd i adolygu eu cyflawniad a bod modd iddyn nhw gael gafael ar gyfleoedd i ddatblygu.

Rydyn ni hefyd yn ceisio deall ein staff a'n gwasanaethau yn well fel bod modd i ni nodi gwelliannau o ran cydraddoldeb, yn ogystal ag adnabod lle rydyn ni'n cyflawni'n dda. Cafodd arolwg staff ei gynnal yn 2017 a oedd yn gofyn a yw'r Cyngor yn weithle cynhwysol. Cafodd staff eu holi a oedd modd iddyn nhw fod eu hunain yn y gweithle, yn ogystal â holi am fecanweithiau rhoi gwybod am achosion o fwlio ac aflonyddu. Dywedodd y staff a oedd wedi ymateb bod modd iddyn nhw 'bob amser/yn aml' fod eu hunain yn y gwaith, a doedd y rhan fwyaf ohonyn nhw ddim wedi profi achosion o fwlio neu aflonyddu yn y gwaith. Mae ymchwil yn awgrymu y bydd y rhai sy'n cael eu bwlio neu eu hafllonyddu yn dymuno peidio â dweud wrth unrhyw un neu roi gwybod am hyn, felly byddwn ni'n parhau i gynghori gweithwyr sut y mae modd iddyn nhw roi gwybod am achosion o fwlio ac aflonyddu drwy gyfrwng hyfforddiant ac erthyglau newyddion.

Amlygodd yr arolwg hefyd fod rhai o'n staff ddim yn gwybod am ein rhwydweithiau, h.y. Perthyn (LHDT+), Cyngreiriaid, a'n rhwydweithiau Anabledd a Chynhalwyr. Mae'r rhain bellach wedi'u cynnwys yn ein trefniadau anwytho pan fydd staff yn dechrau swyddi newydd. Rydyn ni hefyd wedi rhoi trefniadau ar waith fel bod ein rheolwyr yn effro i'r wybodaeth yma, a bod modd iddyn nhw ei chyfathrebu pan fo'n berthnasol.

Mae carfan prosiect wedi'i chreu i edrych ar yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu am ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Byddan nhw'n edrych ar fanteision casglu gwybodaeth monitro cydraddoldeb, a sut y mae modd i ni ddefnyddio'r wybodaeth i'w llawn potensial er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau'n well. Bydd yr argymhellion yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

Ar y cyd â'r Prosiect Cynhalwyr, cafodd achlysur Anabledd a Chynhalwyr ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen. Roedd nifer o arddangosfeydd, stondinau gwybodaeth a gweithgareddau ar gael i'r cyhoedd gymryd rhan ynddyn nhw. Roedd adborth gan bobl a aeth i'r achlysur yn gadarnhaol. Roedd hyn yn cynnwys yr achlysur ei hun, y gweithdai a chymorth gan y staff. Dywedodd un person a gymerodd ran ei fod "wedi mwynhau'r achlysur yn fawr - gobeithio y bydd un arall yn fuan"

**Gwella ein trefniant monitro fel bod modd i ni gael gwybod bod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn gwneud gwahaniaeth**

Yn mhopath rydyn ni'n ei wneud, rydyn ni'n ceisio sicrhau bod modd i'r Cyngor ddangos ei fod yn cyflwyno gwasanaethau cyfartal a theg i drigolion. Yn rhan o adolygiad blynyddol o'n holl wasanaethau, rydyn ni wedi llwyddo i ddangos yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a'r hyn y dylen ni ei wella. Rydyn ni wedi adrodd ar hyn yn ein **Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2016/17**. Rydyn ni'n gwybod bod rhagor o waith gyda ni i'w wneud a byddwn ni'n pennu ein dull gweithredu a'n mesurau o lwyddiant wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

### Adborth o'r Achlysur Cynhalwyr ac Anabledd yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen...

*"Rwy wir wedi mwynhau'r achlysur a gobeithio bydd un arall yn cael ei gynnal yn fuan."*

### Beth fyddwn ni'n ei wneud y flwyddyn nesaf?

Ar ôl eleni, byddwn ni'n cynnwys trigolion a grwpiau i helpu i lywio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018/22 newydd a chymryd camau i ddangos yn well sut mae'n gwaith yn cyfrannu at Gymru fwy cyfartal.

### Yn y cyfamser, byddwn ni'n parhau i wneud y canlynol:

- monitro troseddau casineb fel bod modd i Grŵp Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf eu craffu'n gadarn;
- annog rheolwyr gwasanaethau i ddeall cwsmeriaid yn well trwy gasglu data monitro cydraddoldeb a sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei chynrychioli wrth wneud penderfyniadau;
- darparu ymwybyddiaeth am ein rhwydweithiau gweithwyr a chynyddu eu haelodaeth;
- parhau i weithredu cynllun gweithredu Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi ('WAVE') gyda phrosiect penodol sy'n gofyn a yw rhwystrau'n bodoli o ran datblygiad gyrfa i fenywod hyn yn y sefydliad;
- parhau i fynd i'r afael â stigma Iechyd Meddwl trwy ein hymrwymiad i Addewid 'Amser i Newid' Cymru;
- annog aelodaeth newydd i'r Fforwm Anabledd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol yn Rhondda Cynon Taf;
- cynyddu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n gweithlu.


**Mae modd i chi gael gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â'n gwaith a'n cynnydd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth 2018.**

## YR IAITH GYMRAEG - cyflwyno gwasanaethau yn eich dewis iaith

Ers cyflwyno **Safonau'r Iaith Gymraeg yn 2016**, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu ei ofynion, h.y.

- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg yng Nghymru, a
- rhoi cyfle i bobl gael eu gwasanaethau oddi wrthon ni, yn ogystal â'r rhai rydyn ni'n eu hariannu, yn Gymraeg.

Rhaid i'r holl Gynghorau fodloni'r Safonau yma, sy'n effeithio ar bob maes o'n gwaith. Os nad ydyn ni'n glynu atyn nhw, mae'n bosibl y bydd rhaid i ni dalu cosb o hyd at £5,000 bob tro rydyn ni'n eu torri. Mae'r Cyngor wedi bod yn destun nifer o ymchwiliadau statudol ac rydyn ni wedi torri rhai Safonau. Serch hynny, trwy weithio'n agos gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg, rydyn ni wedi gweithio'n galed i ddatrys y materion yma, ac o ganlyniad dydyn ni ddim wedi cael ein cosbi'n ariannol.



Rydyn ni wedi nodi sut rydyn ni'n gweithredu gofynion y Safonau mewn dwy ddogfen y mae'n ofynnol i ni eu cyhoeddi yn ôl y gyfraith, sef **Cynllun Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg** a **Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg** bum mlynedd y Cyngor, a gafodd ei chytuno gan y Cyngor ym mis Medi 2016. Mae **Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg** hefyd yn nodi ein blaenoriaethau yn y 5 mlynedd y mae'r strategaeth yn eu cwmpasu.

### Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg rydyn ni'n...

Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-ysgol i addysg ôl-16 oed;

Annog y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref

Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg.

Ymestyn cyfleoedd i blant, pobl ifainc a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac mewn gweithgareddau hamdden.

Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

### Yn y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi:

Cyflwyno **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020** diwygiedig i Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud i gynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein hysgolion.

Sefydlu mwy o leoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni'n gobeithio y bydd hyn yn dylanwadu ar nifer y rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg, yn cefnogi defnydd o'r iaith gartref ac yn annog rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.

Adolygu'r targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor i gyd-fynd â thargedau Llywodraeth Cymru.

Cytuno ar brosiect gyda'r Urdd i sicrhau bod gwersi nofio sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu prif ffrydio yn lleoliadau'r Cyngor heb unrhyw gost ychwanegol i'r cwsmer.

Penodi tiwtor iaith Gymraeg ar ein staff, fel bod modd i'n cwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau yn eu dewis iaith. O ganlyniad, cafodd 175 o staff gymorth i wella eu defnydd o'r Gymraeg mewn llai na blwyddyn.

Rydyn ni'n parhau i weithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, gan gynnwys Fforwm Iaith Gymraeg Rhondda Cynon Taf. Mae'r fforwm yn cynnwys grwpiau gwirfoddol, cyrff y trydydd sector a chyrrff eraill y sector cyhoeddus sy'n chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr iaith Gymraeg.

Cafodd yr adroddiad manwl a oedd yn nodi ein cynnydd wrth gyflwyno'r strategaeth yma ei ystyried gan ein **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ym mis Mai 2018**.

**Byddwn ni'n parhau i weithio ar y blaenoriaethau yma yn ystod 2018/19.**

### Byddwn ni hefyd yn...

- gweithio'n agosach gyda'n partneriaid yn y gymuned i helpu i gyflawni ein strategaeth leol a bodloni ein targedau cenedlaethol;
- ystyried ein cynlluniau yng ngoleuni strategaeth **Cymraeg 2050 - miliwn o Siaradwyr Cymraeg** Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth genedlaethol yma yn ymwneud â'r canlynol:
  1. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
  2. cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
  3. creu amodau ffafriol, hynny yw, gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch yn ein bywydau bob dydd. Yn rhan o'r gwaith yma, byddwn ni'n adolygu ein targedau cyfredol o ran cynyddu nifer y staff sy'n gallu delio â'n cwsmeriaid yn eu dewis iaith
- sicrhau ein bod yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag **Addysg yng Nghymru** sydd â'r nod o wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.

**O ganlyniad i'r camau rydyn ni wedi cymryd eisoes, mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda o ran bodloni gofynion y ddwy fenter genedlaethol yma, yn ogystal â chyfrannu'n sylweddol at y nod Llesiant cenedlaethol sef 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'**

## BIOAMRYWIAETH

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y ddaear ac mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid a'r systemau naturiol sy'n eu cefnogi.

Rydyn ni'n parhau â'n gwaith i fodloni gofynion Deddf yr **Amgylchedd (Cymru) 2016** a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2016. Nod y ddeddf newydd yma yw diogelu ein hamgylchedd, yn ogystal â bodloni'r her o greu swyddi a chartrefi, iechyd ac addysg. Wrth weithio fel hyn, bydd hefyd yn helpu i wneud Cymru yn economi gwyrdd, carbon isel, sy'n barod i addasu i newid yn yr hinsawdd.

Yn ogystal â bod y peth iawn i'w wneud, rydyn ni'n bodloni gofynion eraill y Ddeddf trwy gyfrannu at ddull mwy cydgyssylltiedig o ran sut rydyn ni'n rheoli adnoddau naturiol fel y tir, y dŵr, yr awyr a bywyd gwyllt. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut rydyn ni'n defnyddio'r adnoddau naturiol yma yn awr er mwyn sicrhau eu bod nhw dal ar gael yn y dyfodol, yn ogystal ag ystyried bioamrywiaeth yn ein penderfyniadau a'n gweithredoedd.

Mae'r gyfraith yma'n gweithio ochr yn ochr â'r hyn y mae angen i ni ei wneud i wella Llesiant Amgylcheddol a chyrraedd y saith nod Llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd wedi'i chrybwyll uchod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi edrych yn fwy manwl ar yr hyn y mae ein gwasanaethau eisoes yn eu gwneud, ac rydyn ni'n datblygu ein cynllun Bioamrywiaeth a fydd yn integreiddio ecosystemau iach gyda datblygiadau'r isadeiledd ar draws y Fwrdeistref Sirol.



Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi ...

- **gweithio gyda datblygwyr Fferm Wynt Pen y Cymoedd ar ofynion cynllunio a fydd yn integreiddio bioamrywiaeth a mesurau lleihau perygl llifogydd yn un o'r ardaloedd adfer mawnog mwyaf yng Nghymru.**

Bydd hyn yn sicrhau gwarchod natur, gwelliannau i'r dirwedd a rheoli risg llifogydd am 25 mlynedd.

- **parhau i weithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ar y prosiect 'Bryniau Iach'.**

Gan ddechrau'n gynllun peilot ar ddau safle yn y Rhondda, bydd 'Bryniau Iach' yn dod â manau helaeth o dir, gan gynnwys tir y mae'r Cyngor yn berchen arno, dan reolaeth pori a fydd yn lleihau'r perygl o dân gwyllt a hefyd yn cynyddu bioamrywiaeth. Os bydd y cynllun yn llwyddiannus, bydd y prosiect yn cael ei ymestyn i safleoedd newydd fel rhan o raglen hirdymor o waith adfer.

- **parhau i weithio'n rhan o'r Grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.**

Mae'r Grŵp yma yn dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd i gydlyn camau gweithredu mewn perthynas â bywyd gwyllt ar draws Rhondda Cynon Taf. Un o'i lwyddiannau oedd diwrnod cofnodi bywyd gwyllt o'r enw 'bio-blitz' yn hen bwl glo'r Maerdy yn haf 2017. Wedi'i drefnu gan **Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru, (SEWBREC)** cafodd y diwrnod ei ddisgrifio fel "ein diwrnod cofnodi mwyaf llwyddiannus am flynyddoedd lawer. Cofnodwyr lu, safle gwych, fformat gwych - a gobeithio y bydd rhai cofnodion gwych hefyd." Hyd yma mae cofnodion o 345 o rywogaethau wedi'u cyflwyno, 10 ohonyn nhw wedi'u rhestru'n rhai pwysig dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae SEWBREC hefyd wedi cynnal hyfforddiant bioamrywiaeth gydag Ysgol Gyfun Glynrhedynog ar hen safle'r pwll glo yn y Maerdy i annog disgyblion i ymgysylltu â'u hamgylchedd lleol. Mae'r Grŵp hefyd yn gweithio gyda **Chlwb Adar Morgannwg** i helpu i atal dirywiad y boblogaeth gwenoliaid duon, gan gynnwys chwilio am safleoedd lle mae modd rhoi blychau nythu ar eu cyfer nhw.

### Yn 2018, rydyn ni'n bwriadu gwneud y canlynol...

- sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer ystadau tai newydd. Mae hyn yn cynnwys rheoli manau agored cyhoeddus yn yr hirdymor, amddiffyn coed a gwrychoedd, dolydd a choridorau bywyd gwyllt, yn ogystal â darparu ar gyfer draenio cynaliadwy, ardaloedd chwarae i blant, llwybrau teithio llesol ac amgylchedd deniadol i drigolion newydd a'u cymdogion.
- edrych ar sut y mae modd sicrhau bod pob un o'r safleoedd unigol, lle mae caniatâd cynllunio wedi cynnwys y gofyniad i ystyried y bywyd gwyllt, yn gweithio ar y cyd yn y tymor hir i ddarparu cynefin gwerthfawr sy'n ystyried y tirlun cyfan.
- datblygu a chynyddu nifer y safleoedd sy'n darparu cynefin sy'n cynnwys blodau gwyllt a'r cyfle i bryfed eu peillio, a hynny drwy reoli glaswelltiroedd a lleiniau glas.
- datblygu ardal yn Llantrisant yn rhan o'r prosiect 'Bryniau Iach', gan leihau'r perygl o dân gwyllt.
- nodi a symud blaenoriaethau eraill y Cyngor ymlaen dan y 'Ddyletswydd Bioamrywiaeth'.



## Sut rydyn ni'n gwrandio ar drigolion Rhondda Cynon Taf

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i sicrhau ei bod hi'n haws dod o hyd i wybodaeth am y Cyngor, a'i deall.

Rydyn ni'n parhau i wella sut rydyn ni'n mynd ati i siarad â thrigolion ac ymgynghori â nhw yn eu cymunedau. Rydyn ni'n cynnal llai o arolygon traddodiadol. Doedden nhw ddim yn gweithio'n dda, yn enwedig gyda'r bobl hynny sydd yn y gorffennol wedi bod yn anodd eu cyrraedd neu'r rhai sydd ddim yn cael eu clywed yn aml. Erbyn hyn rydyn ni'n mynd ati i gynnal sgysysau wyneb yn wyneb.

Mae'r sgysysau yma yn ein helpu i fod yn fwy gweladwy, yn atebol ac yn hygyrch i drigolion mewn cymunedau fel bod modd i ni glywed eu pryderon a'r heriau sy'n eu hwynebu yn y fan a'r lle. Yn draddodiadol, mae barn gref gyda phobl ar eu cymunedau lleol a chysylltiadau cadarn â nhw ac mae hyn bendant yn wir ar draws Rhondda Cynon Taf.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i gryfhau'r dulliau rydyn ni'n eu defnyddio er mwyn cynnwys ac ymgynghori â phobl a chymunedau. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori â nhw ynglŷn â phennu ein cyllideb a'n lefelau treth y cyngor. Cafodd 1,500 o bobl eu cynnwys mewn nifer o wahanol ffyrdd, e.e. defnyddio Efylychydd Cyllideb ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys **fideo Youtube**, yn ogystal â Chynghorwyr a swyddogion yn siarad â phobl yng nghanol eu trefi, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, siarad â phobl ifainc mewn ysgolion yn ogystal ag achlysur i bobl ifainc yn benodol er mwyn trafod y gyllideb.

### Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi...

- ymgynghori â phreswylwyr ar nifer o gynigion o ran newidiadau i wasanaethau mewn amryw o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus i wahardd cŵn rhag baeddu, a hefyd ymgynghoriad ar gyfer Sylweddau Meddwol er mwyn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Aberdâr a Phontypridd;
- parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'n trigolion gan ddefnyddio @cwmtafconsult i gyrraedd rhagor o'n trigolion trwy hyrwyddo achlysuron ymgynghori ac arolygon ar-lein, ymateb i ymholiadau gan drigolion a hefyd ail-drydar gwaith ein partneriaid, e.e. cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd a chyngor ar iechyd gan y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydyn ni hefyd wedi defnyddio Twitter i ofyn i bobl am eu barn ar gynigion y gyllideb;
- gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi ymgynghori ac ymgysylltu â **Chynllun Llesiant Cwm Taf** a chefnogi datblygiad gwefan partneriaeth Cwm Taf **'Ein Cwm Taf'**;
- gofyn i aelodau o'n Panel Dinasyddion...
  - gwblhau Dyddiadur Teithio i ddarganfod sut mae pobl yn teithio ar draws RhCT, h.y. cerdded, beicio, defnyddio ceir neu drafnidiaeth gyhoeddus fel bod modd i ni nodi gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth.
  - am eu barn ar Ddodrefn ar y Stryd ar gyfer Caffis ym Mhontypridd;
  - am eu barn ar y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn rhan o'r ymgynghoriad ehangach.
- datblygu ymhellach ein Fforwm Ieuencid ar draws Rhondda Cynon Taf, sy'n cael ei gadeirio gan bobl ifainc. Rydyn ni'n gofyn i'r Fforwm Ieuencid am eu barn am wasanaethau'r Cyngor a materion cyllidebol. Mae nifer o is-grwpiau wedi'u sefydlu gan y

bobl ifainc i drafod materion fel iechyd meddwl, llesiant a mesurau i atal bwlio. Gyda'i gilydd, mae'r is-grwpiau wedi creu fideo ar gyfer ysgolion a chlybiau ieuencid ar draws RhCT, er mwyn codi proffil effaith bwlio ar iechyd meddwl pobl ifainc. Mae'r fideo wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd ar gael yn yr hydref;

- datblygu cysylltiadau agosach gyda Fforymau Pobl Hŷn ar draws Rhondda Cynon Taf gan roi cyfle gwell iddyn nhw roi adborth ar faterion sy'n effeithio ar lesiant trigolion hŷn. Rydyn ni wedi cynnwys y Grŵp Cyngori Pobl Hŷn ym mhob ymgynghoriad pwysig ac wedi helpu'r Fforymau Pobl Hŷn i gynyddu eu defnydd o dechnoleg i'w helpu i ymgysylltu'n wahanol;
- dechrau ar y gwaith i ddatblygu dull o gynnwys ein trigolion sy'n dod â'n pobl hŷn a'n pobl ifainc at ei gilydd fel eu bod i gyd yn deall yn well y materion sy'n effeithio arny'n nhw;
- rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid drwy Grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydlynu adnoddau a defnyddio'r wybodaeth rydyn ni'n ei derbyn yn well fel bod trigolion ddim yn cael yr un cwestiynau (neu gwestiynau tebyg) gan bartneriaid gwahanol ac fel bod modd i bartneriaid gwahanol ddefnyddio ymatebion perthnasol, priodol a diennw.

Rydyn ni'n parhau i groesawu adborth oddi wrth ein holl ffynonellau ac yn ddiolchgar i bobl sy'n rhoi eu barn a dweud wrthon ni beth rydyn ni'n ei wneud yn iawn a lle mae angen i ni wella. Rydyn ni hefyd yn gwerthfawrogi adborth ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel bod modd i ni flaenoriaethau meysydd i'w newid/gwella. I gysylltu â ni, defnyddiwch ein manylion cyswllt.

Mae gwrandio arnoch chi ac ymateb yn bwysig i ni. Drwy eich cynnwys yn uniongyrchol ac yn fwy rheolaidd, rydyn ni'n gwybod y byddwn ni'n deall yn well eich anghenion a'ch disgwyliadau, e.e. o ganlyniad i'r hyn roeddech chi wedi dweud wrthon ni, fe wnaethon ni gyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus er mwyn lleihau effaith cŵn yn baeddu ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae hefyd yn golygu eich bod chi'n cael mwy o wybodaeth am yr heriau, y dewisiadau rydyn ni'n eu hwynebu a'r penderfyniadau y mae rhaid i ni eu gwneud o ganlyniad i gyllidebau'n mynd yn llai.

Rydyn ni'n gwybod bod rhagor i'w wneud ac rydyn ni'n parhau i wella'r ffordd rydyn ni'n cwrrd a siarad â phobl a chymunedau fel bydd rhagor o gyfleoedd gyda ni i gynnal trafodaethau agored a gwneud llai o ddefnydd o holiaduron ffurfiol ac arolygon cymhleth.

### Yn 2018, rydyn ni'n bwriadu gwneud y canlynol...

- parhau i siarad â phobl ar draws y cymunedau yn Rhondda Cynon Taf;
- adnewyddu a diweddarau ein Panel Dinasyddion;
- defnyddio'r wybodaeth y mae trigolion yn ei rhoi i ni er mwyn ymgysylltu â nhw a'u cynnwys yn well;
- gweithio gyda'n partneriaid yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf i gefnogi cyflwyno Cynllun Llesiant Cwm Taf yn ogystal â phrosiectau eraill sy'n golygu gweithio gydag eraill, gan gynnwys Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Metro De Cymru a Thasglu'r Cymoedd.